CASGLIAD

O

HYMNAU

WEDI EU HADDASU AT

Addoliad Cymdeithasol.

Gan JOSIAH REES.

Dafar-genwch i Dduw a llef gorfoledd:——Cenwch fawl yn ddeallus. SALM xlvii.

CAERFYRDDIN:

Argraphwyd ac ar werth gan J. Ross, 1796.

Bydded hyſpys i'r darllenydd, fod y llythyrennau ar ddiwedd yr Hymnau yn arwyddo enwau yr amrywiol awdwyr, neu'r cyfieithwyr, fel y canlyn.

D. I. o W. *David Jones, o Watts.*
R. R. *Richard Rees.*
S. H. *Solomon Harries.*
B. F. *Benjamin Ffrancis.*
E. R. *Edward Richard.*
O. R. *Owen Rees.*
J. J. *Jenkin Jones.*
E. G. *Evan Griffiths.*
D. L. *David Lloyd.*
D. D. *David Davies.*
E. P. *Edmwnd Prys.*
G. O. *Gronow Owen.*
T. M. *Thomas Morgan.*
W. W. *William Williams.*
E. E. *Edward Evan.*
J. R. *Joſiah Rees.*

44
4 6
38

TABL

I gael pob HYMN wrth ei dechreuad.

	Hymn.
AMgylchwn fwrdd ein Harglwydd gwiw	96
Ar dywyll nos, pan aeth i'r ardd	92
BEndigaid fo 'r trag'wyddol Dduw	14
Byr iawn a brau yw bywyd dyn	70
CAIFF gweision a morwynion Crist	50
Canmolwn ryfedd gariad Duw	56
Chwi, bobl ifainge, rhowch eich bryd	66
Chwi oll a gadd y ſanctaidd ſwydd	84
Chwychwi ſy'n caru 'r Arglwydd, dewch	45
Clodforaf di, fy Arglwydd da	87
Clodforwn ein cynhaliwr ſyth	76
Cluſt-ymwrandawed pob dyn byw	2
Clywch lais o'r nef, cyhoeddi mae	10
Cydunwn bawb o anian bur	98
Cyfrenni di, ein Duw	6
DEWCH, cym'rwch eich cynghori 'n awr	28
Dewch bellach rhowch y byd ymhell	93
Dewch, bobol ifainge gweddaidd gwiw	102
Diball, O Dduw, yw'th gariad ſawn	91
Doeth lywodraethwr mawr y byd	69
Dragwyddol Arglwydd, o'th ſiaen di	51
Dros ynys Brydain, a'i phlant hi	70
Duw, pa druenus wlad yw hon	47
Dyſaf ddiſgwyliwn bawb yn brudd	46
Dy heddwch, Ior, a gwel'd dy wedd	34
Dy drugareddau, Arglwydd da	78
Dyrchafwn glod ein Harglwydd glân	61
Dywedodd, tyngodd f'Arglwydd Duw	54
EIN Duw ſy'n haeddu mawl pan fo	19
Er marw o Grist, mae ettto 'n fyw	98

	Hymn
FEL hyn, medd y goruchel Un	23
Fel hyn y d'wed Doethineb Duw	29
Fy Mhrynwr cu! mor oleu cair	55
Fy Nuw, fy nerth, a'm bywyd i	1
GAN rinwedd gras gwir awdwr hedd	103
Golygwch Grift ei bugail mwyn	68
Gaist nogion mawr eu braint	167
Gweld nawr a wnawn ein Ceidwad cu	106
Gwirionedd yw, fe'i cadarnhair	58
Gwlad dda yw 'r nefol wlad, mae'n well	36
Gwrandawn ar lais Iachawdwr byd	72
HOsanna fyth, mewn duwiol fryd	80
Hyd yma darfu i Dduw fy nwyn	77
Hyd yma 'n cynnorthwyodd Duw	78
Hyd yma 'mlaen ym dygodd Duw	89
I'R ffyddlon a'r trugarog Duuw	86
LLawenydd a hyfrydwch fy	59
MAE angau yn teyrnasu 'n hŷ	41
Mae Crift a pheraidd lwyfaidd lais	8
Mae gwlad o wynfyd pur, heb haint	57
Mae 'r Iefu wedi myn'd i'r Nef	94
Mae 'r Nefoedd fry yn dadgan	4
Mewn bywyd mae gwafnaethu Duw	20
Mor anrhydeddus ydyw 'r lle	3
Mor deg yw 'th babell di, O Dduw	84
Mor ddoeth yw 'r bod a wnaeth y byd	24
Mor fyr mor frau yw mwyniant byd	13
Mor hardd yw traed y rheiny fy	7
Myfi yw 'r adgyfodiad mawr	11, 20
NID a'r golygon marwol hyn	32
Nid bwyd na dillad o un rhyw	39
Nid i gondemnio dynol ryw	31
Nid ofnaf, er bod brenhin braw	17
Ni thyccia gwaith gelynion Crift	48
Nol i'r gwr doeth trwy brofiad hir	9

	Hymn
O Arglwydd Dduw y nefoedd wych	83
O Arglwydd Dduw y lluoedd fry	85
O Arglwydd, deu'd dy deyrnas di	60
O bechaduriaid! trowch yn ol	56
O ble daw 'n holl feddyliau prudd	16
Oddiwrth bob gofal bydol fy'	63
O groesaw ddydd gorphwysdra a hedd —	44
O mor rhagorol ac mor gu	95
O'r beddau clywn alarus gri	52
Os 'madael mae ein brodyr mwyn	71
Os meirw oedd pawb o ddynoliaeth	65
Os mynni, ddyn, was'naethu Crist	49
Os rhown ein bryd fe ffynna 'n gwaith	25
Os yw 'n gosidiau yn y byd	43
O wele gwr, ac erglyw gwyn	101
TOstyria wrthym, Arglwydd da —	73
Trwy droiau 'r byd, a'i wên a'i wg	30
Trwy Foesa daeth y gyfraith bur	35
WELE y bod trag'wyddol pur	12
Wrth arch ein Prynwr 'r ym yn cwrdd	97
Wrth eiste' o amgylch bwrdd ein Tad	99
Y Llu o waredigion glân	33
Ymffrostied beilchion Pharise'd	40
Ymwared oddiwrth Dduw sy 'n dod	82
Yn awr mae 'r amser wedi dod	104
Yn llawen iawn gosodwn maes	37
Yr enaid hwnnw dedwydd yw	62
Yr haul, O Arglwydd, wrth dy wys	88
Yr holl ffurfafen faith uch ben	5

TABL YSTYR YR HYMNAU.

Hymn

ADdoliad, hyfrydwch ynddo 64
Adgyfodiad 58
——— Crist yr adgyfodiad 11
Adgyfodiad Crist, fail ein gobaith 14
Afradlon, calondid iddynt 56
Agoriad Ty cyfarfod 83
Angladd, Hymnau at hynny 20, 52

BLwyddyn, ei diwedd 74, 75
——— ei dechreu 76, 77, 78
Bodlonrwydd 30
Boreuol Hymn 86, 88
——— neu brydnawnol 90, 91
Brenhiniaeth Crist 48
Breuoldeb bywyd 41, 70, 73

CAriad Duw yn rhoi ei Fab 53
Cariad Crist yn ein cymmell 65
Cariad brawdol 38
Cariad ac anghariad 39
Cariad a chymmwynasgarwch 40
Caru Crist anweledig 82
Clefyd, gwellhad o glefyd 19,
Cofio 'r Creawdwr 88
Credu i gadwedigaeth 31
Crist, ei ddadguddio i Iuddewon a Chenhedloedd 7
——— ei ail ddyfodiad 46
——— ei ddanfoniad 61
——— ei deyrnas deued 60
——— ei dostyri i'r gwan, &c. 37
——— ei esampl 55
——— ei esampl i blant 66
——— ei frenhiniaeth 48
——— ei ogoniant yn y Nefoedd 59
——— yn ei sancteiddio ei hun 100
——— yr adgyfodiad a'r bywyd 11

Cyffredinolrwydd ewyllys da Duw 54
Cyſtydd, dan drefnid Duw 69
——— ymoſtyngiad dano 21

DAioni Duw, ein cynhaliaeth 18
Dilyn Criſt 67
Diolch am waredigaeth wladol 82
Diſgwyl wrth yr Arglwydd 15
Diwedd-glo bywyd y criſtion 17
Doethineb, ei llais hi 89
Duw oll yn oll 1
Dydd gras a gobaith 26
Dydd yr Arglwydd 44

EBenezer 77
Edifeiriol yn cwynfan 8
Efengyl, clod am dani 6
——— ei hyfryd amſer 7
Eglwys Duw, ei diogelwch 3

FFurſafen, ei lleferydd 4, 5, 14

GObaith am y nefoedd yn ein cymmodi ag angau 57
Gorphwyſfa nefol 22
Goſtyngedig, Duw gyd â hwynt 23
——— a anrhydeddir 62
Gwagedd pethau daearol 9
——— a dedwyddwch y nef 13
Gwahoddiad yr efengyl 2
Gwaredigion yn eſgyn i Sion 33
Gwaſanaeth Criſt, ei natur 19
——— ei anrhydedd 30
Gweinidogion, eu dyledſwydd 84
——— cymmanſa o honynt 85
Gweithredoedd a gair Duw 4, 12
——— daionus Duw 24
Gweithio ein iechydwriaeth 25
Gwlad well. 36

IEuengctid, en cynghori 27, 32

LLawenydd nefol ar y ddaear 45

Hymn

MArwolaeth 41
——— y Saint 42
——————— Cyfur ar ol hynny 71
Meirw yn yr Arglwydd, eu gwynfyd 10
Moses a Christ 35

NEfoedd, ei rhagoriaeth 34
——— gobaith am dani 43
Nerth o'r Nefoedd 16

ORdeinhadau, hyfrydwch ynddynt 44
——————— lleſhad oddiwrthynt, 63

PEthau daearol, eu gwagedd 9, 72
Pererindod y Saint 47
Plant, cariad Criſt attynt 68
Prydnawnol Hymn 87, 89

SWpper yr Arglwydd, ei gofodiad 92
——— Parottoad iddi 93
——— Coffadwriaeth o Griſt 94, 98
——— Gwiedda. yno 95
——— Gwahoddiad iddi 96
——— Gorfoledd yn y groes 97, 98
——— Yn galw i gariad 101
——— Galwad ar bobl ifainge iddi 102
——— Hymn ar ei hol 103
——— Wrth ymadael 104

TEyrnas Criſt, deued 60

YMpryd, dydd ympryd 79, 80, 81

DIWEDD.

D. S. Y mae Cyhoeddwr yr Hymnau hyn wedi parottoi Caſgliad o *Salmau*; ac os bydd y cyhoeddiad yma yn dderbyniol, fe argraphir hwnnw hefyd cyn y bo hîr: Pwy bynnag gan hynny a ewyllyſiant fod yn feddiannol o'r ddau, a ddylent gymmeryd gofal am hwn, fel y gallo y Salmau a'r Hymnau gael eu rhwymo ynghyd yn un llyfr.

D. S. Y mae Cyhoeddwr yr Hym-
nau hyn wedi parottoi Calgliad o Sal-
mau; ac os bydd y cyhoeddiad yma yn
dderbyniol, fe argraphir hwnnw befyd
cyn y bo hir: Pwy bynnag gan hynny
a ewyllyfiant fod yn feddiannol o'r
ddau, a ddylent gymmeryd gofal am
hwn, fel-y gallo y Salmau a'r Hymnau
gael eu rhwymo ynghyd yn un llyfr.

CASGLIAD O HYMNAU.

HYMN I. [M. C.]

Duw *oll yn oll.*

1 FY Nuw, fy nerth, a'm bywyd i,
Rhoes arnat ti fy ngoglud;
Can's oll yn oll wyt 'm', O Dduw,
Nis gallaf fyw pe'm gedyd.

2 Dy ddiſglair wedd all lawenhau
Fy mhabell glai mewn trallod;
Mae'n neſoedd lle b'ech di, fy Nuw,
Ac uffern yw bod hebod.

3 Dedwyddwch yr angylion fry
O honot ti ſy'n tarddu;
Wrth eiſte 'nghylch gorſeddfa'th ras,
A chael cymdeithas *Ieſu*.

4 Nid allai holl delynau'r ne'
Byth wneud y lle yn neſol,
Pe b'ai i Dduw eu gadael heb
Gael gweld ei wyneb ſiriol.

5 Ni rydd y nef na'r ddaear im',
'R wy'n ſicir ddim bodlonrwydd;
Na dafn o wir lawenydd heb
Dy breſennoldeb, Arglwydd.

6 Tydi yw 'r môr o gariad rhwydd,
Lle mae bodlonrwydd dibaid;
Trogylch fy holl ferchiadau wyt,
A chanol hwynt fy enaid.

D. I. o W.

HYMN II. [M. C.]

Gwahoddiad yr Efengyl.

1 CLUST ymwrandawed pob dyn byw,
Llawened pob rhyw galon;
Mae udgorn yr efengyl fwyn
Yn galw'n addfwyn arnon.

2 Pob enaid yn newynog fy',
Ar wynt a fu'n ymborthi,
Na ddichon holl deganau'r byd
Mo'ch enaid drud ddigoni.

3 Mae yma wledd, danteithiol yw,
Doethineb Duw a'i trefnai;
A groefaw i bob newynog ddel
I broi o'i meluſderau.

4 Dewch, chwi fy'n blyſio'r ffrydiau gwych,
A'ch enaid ſych ar drengu;
Cewch dorri'ch ſychaid yma'n ſiwr,
A'r bywiol ddw'r a bery.

5 Afonydd gras a chariad ſydd
Fel môr di-ddyſpydd yma;
Llawn iechydwriaeth i'r rhai blin,
Fel llaeth a gwin, ddylifa.

6 Duw da, tryſorau'th ras a gair
Fel bythol aur-fwyn gloddiau;
Fel ein trueni dyfnion yn',
Diderfyn fel ein beiau.

7 Pyrth hyfryd gras y 'fengyl ſydd
Bob nos a dydd yn agor;
O Dduw, ni dde'wn fel hyn i gael
Diwallfa hael o'th dryſor.

D. I. o W.

HYMN III. [M. H.]

Diogelwch yr Eglwys.

1 MOR anrhydeddus ydyw'r lle
'Rym ni'n addoli Brenhin ne'!
Seion, gogoniant daear lawr,
A thegwch penna' *Brydain fawr!*

2 Mae'r ddinas hoff, lle'r ym yn byw,
Dan amddiffynfa gras ein Duw;
A muriau iechydwriaeth fy'
Yn cadw i bant bob gelyn cry'.

3 Agored pyrth tragwyddol hon,
A'i dryfau'n llwyr ar led o'u bron,
Ac oed i mewn y genedl wiw
Y rhai fy'n cadw deddfau Duw.

4 Chwi fy'n adnabod enw Duw,
Sy'n credu i'w ras, ac iddo'n byw,
Cewch yma brofi melus wledd,
A bod o hyd mewn perffaith hedd.

5 Gobeithiwch yn yr Arglwydd byth,
Ac na rowch le i ofnau chwith;
Mae nerth JEHOFA, yn ddilai,
I dragwyddoldeb yn parhau.

6 Er i'w elynion godi 'n fawr,
Efe a'i fraich a'u tyn i lawr;
Mor ifel a 'ftafellau 'r hedd
Y dygir hwynt, er cuwch eu gwedd.

7 Ein traed a fathra *Babylon*,
Bryd hynny bydd y faint yn llon;
Tannir ei muriau'n yfflon mân,
Gael ffordd i dlodion ddo'd ymlaen.

D. I. o W.

HYMN IV.

Wedi ei chyfanfoddi ar y XIX. SALM.

1 MAE'R nefoedd fry yn dadgan
I ni ogoniant Duw,
Uwch ben y mae'r ffurfafen
Yn dyfgu dynolryw;

Mae'r haul, ar ſer, a'r lleuad,
A'r holl blanedau 'nghyd,
Yn g'nifer o bregethwyr
I amryw barthau 'r byd.

2 Mae dydd a nos ol yn ol
Yn traethu yn gyttun,
Gan ddyſgu gwerſau diſtaw
I bob yſtyriol ddyn;
Ac er nad oes na thafod
Na 'madrodd gan y rhai'n,
Nid oes na gwlad na phobol
Lle ni chyrhaedda 'u ſain.

3 Yr haul yn enwedigol,
'R hwn ſydd a'i babell fry,
Sydd un dyſgawdwr hynod
Ym myſg y nefol lu;
Pan godo yn y dwyrain
Ar foreu goleu, gwn
'Does un priod-fab hardd-deg
Mor hoywed ag yw hwn.

4 Mae beunydd tu a'r gorllewin
Yn ſymmud ar ei daith,
Mor wiſgi ac un rhedegwr,
Am draws yr wybren faith;
Ac yn ei gylch blynyddol,
I'r gogledd ac i'r de',
Fe ddwg ei wres ar droion
I lonni pob rhyw le.

5 Mae gwaith y greadigaeth,
A gwaith rhagluniaeth Duw,
Yn dweyd mai hanfod nerthol,
A doeth anfeidrol yw;
Rhaid oedd wrth allu i wneuthur,
Ac wrth ddoethineb mawr,
I drefnu'r hyn a wnaethpwyd
O'r dechreu hyd yn awr.

6 Yn llyn mae'r pethau welir
Yn dyſgu pawb i ddod,
I barchu ac anrhydeddu
Yr hwn a roes eu bod;

Mae hyd yn oed Paganiaid
Heb eſgus gwir, na phle,
Os bod yn anniolchgar
A wnan' hwy iddo 'fe.

7 Ond er bron ein dyledſwydd
Yn cael ei rhoi mewn rhan
O'n blaen yn llyfyr natur,
Nid yw y goleu ond gwan;
Os awn ni i'w gydmaru
A'r dadguddiadau wnair
Yn y 'ſgrythurau ſanctaidd,
Y 'ſgrifenedig air.

8 Mae hon yn rheol berffaith
I arwain dyn yn ôl
I union ffordd ſancteiddrwydd,
O'i lwybrau ffiaidd ffol;
Tyſtiolaeth ſicir ydyw
Yn dod a rhai o fyſg
Gwirioniaid anwybodus
I gyrraedd iachus ddyſg.

9 Mae rhai'n yn werth ſawroccach,
Nag aur profedig coeth,
Ac yn feluſach hefyd
Na mêl, i'r galon ddoeth;
Rhag drwg ar bob amſerau
Cair rhybudd ynddynt hwy,
O'u cadw'n gydwybodol
Mae gwobor fwy na mwy.

10 Ond hyn, O Arglwydd! ydyw
Fy anhappuſrwydd i,
Fy mod i'n ffaelu dilyn
Dy reol berffaith di;
'Rwy wrth gydmaru 'mywyd
A'r hyn ſydd yno i lawr
Yn gwel'd fy anwireddau
Yn llioſogi 'n fawr.

11 'Rwy'n erfyn ar dy ſawredd
I raſol ganiattau
Im' gael oddi wrth fy meiau
Cuddiedig fy nglanhau;

Ar gwared fi'n enwedig
Rhag pob rhyfygus fai,
Ac felly bydd f' enogrwydd
Yn myn'd o hyd lai lai.

12 Attolwg boed derbyniad,
Graſuſol ger dy fron,
Fy Nghraig a'm Prynwr nerthol,
I'r gan a'r gyffes hon;
A phan ddyrchafwyf attat
Fy ngweddi, clyw fy llef,
Gogwydda'th gluſt i wrando,
O'th annedd yn y nef.

R. R.

HYMN V. [M. H.]

O Saiſonaeg Mr. *Addiſon* ar y rhan gyntaf o'r xix. Salm.

Lleferydd y Ffyrfafen.

1 YR holl ffurfafen faith uch ben,
A'r brydferth las wybrennol len;
Y nefoedd ſer-lawn, mewn modd ffraeth,
Sy'n tyſtiolaethu pwy a'u gwnaeth.

2 Yr haul, heb flino byth, fel cawr,
A ddadgan nerth ei luniwr mawr;
Bob dydd cyhoedda, trwy bob gwlad,
Waith llaw yr hollalluog Dad.

3 Pan ddel yr hwyr, mewn wybrol iaith,
Mae'r lloer yn dechreu'r bregeth faith;
I'r ddae'r wrandawgar edrydd hon
Gan bwy ca'dd fod a llewyrch llon.

4 Tra mae pob planed ddiſglair fry,
A'r ſer gwreichionllyd o bob tu,
Yn cadarnhau'r un gwir o hyd,
Ac yn ei dannu trwy'r holl fyd.

5 Beth er mai diſtaw'r trefnus gor,
Wrth amgylchynu tir a mor?
Beth er mai tawel araith nef,
Ac na chlyw cluſtiau cnawd mo'u llef.

Ynghluſt doethineb traetha'r rhai'n,
Angylaidd ddyſg, mewn hyfryd ſain,
Byth wrth ddiſgleurio, canant hyn,
"Duw biau'r llaw a'n gwnaeth ni'n llyn."

S. H.

HYMN VI. [M. B.]

Clod am yr Efengyl.

1 CYFRENNI di, ein Duw,
I ddynion amryw ddoniau;
Cynheli'n cyrph anhwylus ni,
Gwaredi ein heneidiau.

2 Rho'iſt in' d'efengyl fwyn,
Yr hon ſy'n dwyn newyddion
O rad faddeuant hoff i fyrdd,
Fu'n rhodio ffyrdd afradlon.

3 Boed i ti ddirfawr glod,
Am i ni enio'd i glywed
Y gair galluog ſy'n gwellhau
Doluriau pechaduriaid.

4 Meluſach yw i'm min
Na mel na gwin rhagorol,
A gwerthfawroccach yw y gair
Na mil o aur dymunol.

5 Trwy rinwedd gair dy ras,
Profaſom flas iachuſol:
Dy felus deg dangneſedd di,
A'n gwledda ni 'n drag'wyddol.

6 Blodeua'r anial dir,
Fu'n ſarrug hir amſerau:
Daw 'r broydd yn wyrdd, a'r bryniau'n hardd,
Fel *Eden* ardd, gan flodeu.

7 Y tlodion a gant wledd,
A melus hedd a liſa;
Y claf a'r hen a lawenhâ,
Yr *Ieſu* a deyrnaſa.

B. F.

HYMN VII. [M. H.]

Hyfryd amſer yr Efengyl; neu ddaadguddiad o Criſt *i'r Iuddewon a'r Cenhedloedd.*

1 MOR hardd yw traed y rhei'ny ſy'
Yn ſefyll ar fryn *Seion* fry!
Cyhoeddant iechydwriaeth wiw,
A geiriau heddwch oddiwrth Dduw.

2 O pa mor felus ac mor ſwyn
Yw y newyddion maent yn ddwyn!
Gwel, *Seion*, dy Waredwr mawr,
A'th frenhin gorfoleddus 'n awr.

3 Ein cluſtiau, dedwydd yw y rhain,
Sy'n gwrando'r firiol hyfryd ſain;
Brenhinoedd a phrophwydi fu
Yn ofer-geiſio'i chlywed hi.

4 A'n llygaid dedwydd ynt yn wir,
Sy'n gwel'd goleuni'r ſengyl bur;
Hir ddiſgwyl hwn y buûr hen ſaint,
A marw heb y cyfryw fraint.

5 Y gwyliedyddion o un fryd
Dyrchafant lef i ganu 'nghyd;
Caerſalem dyr i maes mewn cân,
A'r lleoedd anial llawenhan'!

6 Dinoethi ei fraich mae'n Harglwydd mawr,
Ar led dros wyneb daear lawr;
A chaffed pawb o ddynolryw
Gyd-weled iechydwriaeth Duw.

D. I. o W.

HYMN VIII. [M. C.]

Cwynfan yr Edifeiriol am Gymmorth Criſt *i iachau ei Friwiau pechadurus.*

1 MAE Criſt â pheraidd lwyſaidd lais,
Hyfrydlais i'r afradlon,
Yn galw pawb i'r goleu-pur,
Prawf eglur o'u peryglon.

2 O deffro, enaid, deffro 'n ſwyn,
A gwna dy gwyn yn gynnes;
Can's noeth, newynog, euog wyf,
A gwae fi clwyf a geſais.

3 Llidio y mae a lledu 'mhell;
Heb gymmorth cyfell cywir,
Yr hwn ar groes a'm rhoes yn rhydd,
* Anaelau fydd fy nolur.

4 Trwy lawer loes, a'i ddwylo ar led,
Och hylled ei archollion!
Fy'm poenau tyr, o'm pen i'm traed,
Ag eli o waed ei galon.

5 Er bod ei galon union E
Dros fyd a'i gwadei'n gwaedu,
A mil o friwiau'n malu ei fron,
Bu ffyddlon hon er hynny.

6 Ond adain ffydd nid edwyn ffôl,
Y fi a'n ôl fy Anwylyd,
Yn was i hwn mewn oes a hedd,
Ddiddiwedd yw 'r addewid.

E. R.

* Diſeddyginiaeth.

HYMN IX. [M. C.]

Gwagedd pethau daearol. Preg. ii. 26.

1 'NOL i'r gwr doeth, trwy brofiad hir,
Ymofyn gwir ddaioni,
Ni cha's mewn dim oedd dan yr haul,
Yn ol ei draul, ond gwegi.

2 Os rhoddwn ninnau'n ſerch a'n bryd
Ar hyn o fyd a'i foddion;
'Nol cael byd llawn, trwy ofal llym,
Ni lenwir dim o'r galon.

3 Y mae blinderau fwy na mwy
Ynghymmyſg trwy ein mwyniant;
A than un blinder, ein holl dda
A'n pleſer a ddiflaſant.

4 Mae'r cwbwl oll ſydd dan y rhod
Fel cyſgod yn diflannu;
Di elli fod, bechadur, ſynn,
Yn uffern cyn y foru.

5 I bant a'r byd, 'd oes ynddo i gael
Ond brau a gwael bleſerau;
O f'enaid! dos yn rhwydd ar ol
Y nefol bythol bethau.

6 Can's yno, gwel, bydd gwynfyd gwir
Yn ſicir yn dy feddiant;
Pan wiſgych gyd â Duw a'r Oen
Dy goron o ogoniant.

J. R.

HYMN X. [M. H.]

Gwyn eu byd y meirw ſy'n marw yn yr Arglwydd.

1 CLYWCH lais o'r nef, cyhoeddi mae,
Gwyn fyd y meirw, dduwiol rai,
Eu henwau'n perarogli ſydd,
A'u cwſg yn eſmwyth yn y pridd.

2 Yn Ieſu marw'n ddedwydd maent,
Mor felus ydyw hûn y ſaint!
Rhydd oddiwrth bechod gwnaethpwyd hwy,
A dioddefiadau a maglau mwy.

3 Ymhell o'r byd a'i drafferth triſt,
Maent yn breſennol gyd â Chriſt;
Llafurus waith eu bywyd brau
Mewn gwobor fawr diweddu mae.

D. I. o W.

HYMN XI. [M. H.]

Criſt *yr Adgyfodiad a'r Bywyd.* IOAN xi. 25.

1 "MYFI yw'r adgyfodiad mawr,
" 'Rwy'n gado'r lle ſy' dan y llawr;
" Nid braion mân, na meini mwy,"
Medd Criſt, " am ceidw yma 'n hwy.

2 " 'Rwy'n llawer trech, na'r angau trwch,
" Er iddo 'mlladd, a'm rhoi'n y llwch;
" Er gwaeth a'i furiau caeth a'i fraw,
" Ni arosa'i ond tridiau dan ei law.

3 " Fe'm claddwyd i mewn clod a hedd,
" I g'weirio 'r ffordd o'r byd i'r bedd;
" A'm codiad hyn, mynediad yw
" O waelod bedd i wlad y byw.

4 " 'Rwy'n drangc i'r bedd, 'rwy'n dwyn y dydd,
" Dy waetha mwy, mi archa'n brudd,
" A'th ingoedd dir, yr angau du,
" Ac ar fy ol daw'r marwol lu.

5 " Blant angau, dewch, mae'r ffordd yn rhydd;
" Mi rwygais gaerau'r angau prudd:
" Dewch hyd y nef, dewch at eich Tad,
" Dewch ar fy ol i dir eich gwlad.

6 " Mae'r angau'n ddewr, rych chwithau'n ddall,
" Rhaid brenhin glew, a blaenor call,
" I ymlid byddin brenhin braw,
" A'ch dwyn yn lân o dan ei law.

7 " Myfi a'i gwnaf; congcwerwr mawr,
" A brenhin wyf dros nef a llawr:
" Dewch ar fy ol, a dewch mewn hedd,
" Dros derfyn eitha 'r byd a'r bedd."

J. J.

HYMN XII. [M. C.]

Gogoniant Duw yn ei Weithredoedd a'i ras yng Ngbrist.

1 WELE y bod tragwyddol, pur,
Anfeidrol berffaith yw;
Doeth luniwr nef, y mor a'r tir,
A'u hamal luoedd yw.

2 Holl ragoriaethau bydoedd fyrdd,
Sy'n gwau'r ehangder mawr,
A genmyl byth fy Nuw a'i ffyrdd,
Rifedi gwlith y wawr.

3 Mor felus yw nefolaidd gan
Yr holl angylaidd lu,
Sy'n canmol gwaith ei ddwylo glân,
Yn gyfiawn ac yn gu!

4 Dewch, chwithau feintiau o bob gradd,
I ganmol cariad Duw,
Yn rhoi ei anwyl Fab i'w lâdd,
I achub dynolryw.

5 Eich holl bwerau rhowch i maes
Mewn cân wylofus drift;
A chenwch glod tragwyddol râs,
A chariad Iefu Grift.

6 Wrth reol deg eich anwyl Dâd
Ymlynwch tra fo'ch byw;
Ymdrwfiwch a rhinweddau mâd;
Eich braint a'ch dyled yw.

E. G

HYMN XIII. [M. H.]

Gwagedd y Byd a dedwyddwch y Nef.

1 MOR fyrr mor frau yw mwyniant byd!
Mor wael ei goeg deganau i gyd!
Ei fawredd oll rhy fychan yw
I foddio'r rhan anfarwol wiw.

2 Pe caem wych urddas ymhob man,
A golud byd i gyd i'n rhan;
Rhaid gado 'rhai'n; dyd brenhin braw
Ni'n fud i orwedd dan ei law.

3 Pob plefer, llawnder, mwynder gwiw,
Ein cyd-drigolion o bob rhyw,
Cymdeithion, ceraint gwych eu gwedd,
Rhaid gado 'rhain, rhaid mynd i'r bedd.

4 Gan fod pob peth dan haul mor wael,
Oes dim happufrwydd gwir i'w gael?
Dim newid byd? dim mwy lleshad?
Dim golud gwell, o hwy parhad?

5 Oes, f'enaid, oes; fy Mhrynwr daw,
I'm dwyn i'r wlad ſy'r ochr draw
I lygredigaeth: yno caf
Dros ſyth ſwynhau fy Nuw, fy Nâf.

6 Caf gwmp'ni Criſt a'r ſeintiau fry,
Ynghyd a'r glân angylaidd lu:
Cyd-una â'r rhai'n mewn nefol waith,
Dros oeſoedd tragwyddoldeb maith.

7 Fy enaid rho'r byd hwn ymhell,
Rho'th ſerch ar ſtad anfeidrol gwell;
Cai wynfyd hir, cai nefol fraint,
Cai ran ym mythol ſyd y ſaint.

8 Dod gymmorth in', dragwyddol Dad,
I rodio 'n ffyrdd dy ddeddfau mâd;
A dwg ni i'r lan, trwy Griſt ein pen,
I'r happus ſan ſydd uwch y nen.

D. L

HYMN XIV. [M. H.]

Gobaith am y Nefoedd trwy aberſoddiad Criſt.

1 BENDIGAID fo'r tragwyddol Dduw,
Tad Ieſu 'n Harglwydd anwyl yw;
Boed i'w fawrhydi glod a bri,
Am ei drugaredd fawr i ni.

2 Ei Fab o'r bedd pan gododd ef,
A'i alw atto ſynu i'r nef,
Rhoes ini ſywiol obaith gwiw,
Y byddai i ninnan byth gael byw.

3 Os rhaid yw, am ein pechod mawr,
I'n cnawd i ſyrthio i lwch y llawr,
Megis y cododd Criſt o'u blaen,
Felly gwna 'i holl ganlynwyr glân.

4 Mae etifeddiaeth nefol, rydd,
Ynghadw erbyn del y dydd;
Dilwgwr a dihalog ſtâd,
Ni threulir byth o'r fath dref-tad.

5 Y Saint a gedwir trwy nerth Duw,
Nes delo 'r iechydwriaeth wiw:
Wrth ffydd ymdeithio'r y'm trwy'r byd,
Nis galwo Criſt ni adre i gyd.

D. I. o W.

HYMN XV. [M. C.]

Diſgwyl wrth yr Arglwydd.

1 PWY ſy gyffelyb i'n Duw da,
Mor dirion a thrugarog?
Fe wrendy ef yn rhwydd ar lais
Pob un a'i cais yn wreſog.

2 Pob enaid tlawd cyſtyddiol ſy'
A'i obaith fry yn benna',
Fe fydd Duw hael yn dda i hwn,
'Fe dynn ei bwn a'i boenſa.

3 Da yw i Griſtion ar bob tro
Obeithio yn yr Arglwydd;
Gan gofio nad yw braich o gnawd
Ond cymmorth tlawd mewn anflwydd.

4 Dan bob trallodion yn y byd,
Da diſgwyl hyd y diwedd,
Am iechydwriaeth fawr ddidrai
Yr Arglwydd, a'i drugaredd.

5 O fenaid! rho ar Dduw dy faich,
Tragwyddol fraich a'th gynnal;
Ymdrecha 'n deg trwy'r anial dir,
Ni byddi 'n hir mewn gofal.

6 Duw, Tad y trugareddau oll,
Mae'n pwys yn hollol arnad;
Rho in' dy iechydwriaeth di,
A llanw ni â'th gariad.

O. R.

HYMN XVI. [M. H.]

Nerth o'r Nefoedd. Esa. xl. 27.—30.

1 O B'le daw'n holl feddyliau prudd?
Beth ddarfu i'n cryfder ni, a'n ffydd?
A ydyw pechod wedi lladd
Ein holl gyfuron o bob gradd?

2 Ai'n anghof aeth y nerthol Ior,
A wnaeth y ddaear faith a'r mor?
A all y fraich a wnaeth bob peth
Ddiffygio fyth, neu fyn'd ar feth?

3 Tryforau o nerth tragwyddol fy'
Yn ein *Jehofa* cadarn eu;
Rhydd oruchafiaeth i'r di-rym,
A fathra 'n llwyr elynion llym.

4 Nerth dyn yn unig a wanhâ,
A chryfdwr iengetid blino wna;
Ond ni fy'n difgwyl wrth ein Duw,
Cawn nerth fwy fwy tra fo'm ni byw.

5 Saint fel eryrod 'hedeg wnant,
A phrawf o'r gwynfyd nefol cânt;
Nes delont i'r dedwyddol dir,
Lle mae digrifwch perffaith pur.

D. I. o W.

HYMN XVII. [M. H.]

Diwedd-glo Bywyd y Criftion.

1 NID ofnaf, er bod brenhin braw,
Ai arf annelog yn ei law;
Nid oes echryllidod yn ei wedd,
Mi agora 'mynwes idd i'w gledd.

2 Fy Arglwydd nerthol, elyn gwan,
Wrth fyrthio a'th orfu yn y fan;
Ac i'w gyfeillion etto rhydd,
Yn angau, nerth i gario 'r dydd.

3 Groefaw i'r clwyf a'm dyd yn rhydd
O fyd a chnawd a phechod prudd;
O garchar tywyll diangc caf
I rydd-did a goleuni 'r af.

4 Fe ddarfu 'r rhyfel llym a fu,
A gofid trwm, a phechod du:
Gorfoledd doed heb oedi 'n hwy!
Yn iach i'm holl elynion mwy!

5 Mi fyfiaf adre i dŷ fy Nhad,
I gwrddyd a'm Iachawdwr mad;
Ni wybia i'n noeth o le i le,
Trwy fydoedd, heb ei ofal E'

6 Ni âd i'm corph, fy wael ei wedd,
I bydru byth yn eigion bedd;
Ond cwyd e'n gryf a theg ei rân,
Ar fywiog lun rhyw angel glân.

7 Yn iach i bob perthynas fwyn
A'r ddaear hon a fum i 'n ddwyn;
Ymado a 'nhwy fy waith anhawdd,
Y galon don o'm mewn a dawdd.

8 'F 'nwyliaid oll, fydd yn y byd,
A rof i ofal Duw i gyd:
O arwain hwynt rhyd ffordd y ne',
Trwy hyll le drwg, draw oll i dre'.

D. D.

HYMN XVIII.

Daioni Duw, cynhaliaeth y Criftion mewn Bywyd a Marwolaeth.

1 PA mor hyfryd, Arglwydd tirion,
Ydyw coffa'th ddoniau maith;
Dy glodfori am dy roddion
Fyth a fydd fy hoffaidd waith.
Trwy bob awr o'm pererindod
Dy ddaioni fydd fy nghân;
Canaf ddydd a nos yn wastod
Deilwng glod i'm Harglwydd glân.

2 Pan na chaffwyf fawr orphwysfa
Gan ofidiau hyn o fyd,
Pan f 'wi yn y cyfliwr gwaela,
Moli Duw a wnaf o hyd:
Credaf yn ei addewidion,
Byddaf fodlon i fy rhan,
Ac ynghanol pob trallodion
Hyn a gynnal f 'enaid gwan.

3 Pan fo nattur yn ymddattod,
A chyfuron byd yn ffoi;
Pan fo'r angau, oer ei ddyrnod,
Rhwng ei freichiau yn fy nghloi;
Mi ddadganaf "Da yw 'r Arglwydd,
(Tra b'wy'n abal d'wedyd dim)
"Moliant iddo yn dragywydd
"Am ei fawr ddaioni im'."

4 Wedi cael y fuddugoliaeth
Ar y gelyn angau du,
Trwy ehangder creadigaeth
Eheda 'n frau i'r nefoedd fry:
Yno canaf i'r Gorucha',
Ac i'r Iefu felus fawl,
Haleluiah, Haleluiah,
Haleluiah yn ddidawl.

J. R

HYMN XIX. [M. C.]

Can Hezecia, neu *wellhad o glefyd.* Efa. xxxviii. 9. &c.

1 EIN Duw fy'n haeddu mawl, pan fo
'N ein codi o gyfyngdra;
Cymmerwn battrwn gwych o'n clod
O dafod *Hezecia.*

2 Yn ofer egyr pyrth y bedd,
Os Duw, o'i ryfedd gariad
Sy'n cadw allweddi angau caeth,
Eirch iddynt eilwaith gaead.

3 Doluriau'n cnawd yn ſynych ſy'n
Dychrynu ein meddyliau;
Dweud wnawn "Nid oes in' ddyddiau'n hwy,
"Na gweddill mwy i'n blynyddau."

4 Fel gwennol trydar yn driſt iawn,
Neu gwyno wnawn ſel c'lommen,
Mewn chwer'der prudd heb gyſur pan
Y byddom dan y wialen.

5 Duw dd'wed y gair ag ſy'n iachau,
Ac ni wrthſai' clefydon;
Mae heintiau a thwymynon ſwrth
Yn ſeilio wrth ei eirchion.

6 Ein bywyd afiach, lleſg a brau,
Ei wella mae yn holliach;
Tu cefn mae'n taflu 'n beiau gwael,
Na b'ont i'w cael byth mwyach.

D. I. o W.

HYMN XX. [M. C.]

I'w chanu mewn Angladd.

1 "MYFI yw'r adgyfodiad mawr,
"Myfi yw gwawr y bywyd,
"Caiff pawb a'm cred," medd f'Arglwydd gwiw,
"Er trengu, fyw mewn' eilfyd.

2 "A'r ſawl ſy'n byw mewn ufudd grêd
"I mi, caiff drwydded nefol,
"Na allo 'r angau, brenin braw,
"Ddrwg iddaw yn drag'wyddol.

3 "Yn wir yn wir," medd Gwir ei hun,
"Pob cyfryw ddyn ſy'n gwrando
"Fy ngair, gan gredu'r Tad a'm rhoes,
"Mae didrangc einioes ganddo.

4 "A wnel ei oreu 'i ufuddhau
"Trwy ffydd i'm geiriau hyfryd,
"Ni ddaw i farn, ond trwodd f'aeth
O angau caeth i fywyd."

5 (D'wed *Ioan*, o hyn allan mai
Gwynfyd y rhai fu feirw
Yn ffydd yr Arglwydd, gwyn eu byd
O'r glân ddiweddbryd hwnnw.

6 Felly y d'wed yr Yſpryd Glân,
Can's maent yn diddan orphwys
Oddiwrth eu llafur, mewn rhyddhad,
Dedwyddol ſtad paradwys.)

7 Na fyddwn anobeithiol driſt
Am neb yng Nghriſt a hunant;
'Nol mynd o'r corph maent gyd ag ef,
Ynghartref y gogoniant.

8 Os mynnwn, fel na ddug ond hûn
Yſpryd ein dŷn at feintiau;
Mewn ennyd bach cawn ninnau hun
A'n dwg i'r un trigfannau.

E. P.

HYMN XXI. [M. H.]

Ymoſtyngiad mewn Cyſtydd.

1 PAHAM y grwgnach un dyn byw
Am fod yn glaf, ein cyflwr yw;
Ni ddaw o'r aer na'r ddaear ddu,
Ein Tad appwyntiodd hyn i ni.

2 Nid pres na harn, ond darn o dir
Yw'n cyrph, ni allant ddal yn hir:
Fe dderfydd defnydd bywyd brau,
O edau wan mae wedi' wau.

3 Diſgyblion y'm, rhaid dyſgu byw
Fel dynion da yn ofan Duw;
Pan fo'm yn nagu dyſgu dim,
Ein coſp a fydd y cyſtydd llym.

4 Ein cnawd ſydd fel anifail mud,
I borthi ei fol abertha'i fryd;
Cyn caffo'r enaid gwerthfawr ddim,
Rhaid coſpi 'r cnawd â chyſtydd llym.

5 Ein meddwl hefyd dynn ar ol
Synhwyrau'r corph, a'i duedd ffôl;
I'w ddwyn at waith, wrth gyfraith Criſt,
Rhaid coſpi 'r cnawd a chyſtydd triſt.

6 Yr Ieſu hael yn ſiampl ſy,
Efe a ſydd, efe a fu;
Wrth ddilyn hwn rhaid goddef loes,
Rhaid gwadu'r cnawd a chodi' groes.

J. J.

HYMN XXII. [M. H.]

Yr Orphwyſfa nefol.

1 PEN Arglwydd mawr y bydoedd frŷ,
I'th wydd y deuwn yn dy dŷ:
O boed ein gwaith yr oedfa hon
Yn gymmeradwy ger dy fron.

2 Gorphwyſfa'r Sabbath melus yw,
Ond mae gorphwyſfa well gan Dduw;
I honno 'r â y duwiol rai,
I orphwys rhag pob gwyn a gwae.

3 'Does un rhyw gyſtydd i gael lle,
Nac un rhyw bechod yn y ne';
Ond hymnau mawl a genir byth,
Heb un ochenaid yn eu plith.

4 Pob math o elyn cyndyn câs,
Pob achos terfyſg gedwir 'maes;
Tywyllwch yno byth nid oes,
Ond dydd tragwyddol heb ddim noſ.

5 O Haul cyſiawnder! cwyd yn llyn
Ar yr ardaloedd tywyll hyn:
Mae marw 'n well ini na byw
Os cawn ni orphwys gyd â Duw.

J. R.

HYMN XXIII. [M. H.]

Duw'n preſwylio gyda'r goſtyngedig edifeiriol. Eſa lvii. 15, 16.

1 FEL hyn medd y goruchel Un,
" 'Rwy 'n llanw ngorſeddfaingc fy hun:
" Fy enw yw Duw, 'rwy'n trigo fry,
" Fy nhra'gwyddoldeb yw fy nhŷ.

2 " Ond diſgyn wyf i fydoedd îs,
" Mae gennyf ar y ddaear lys;
" Yr yſpryd goſtyngedig briw
" Yw 'r drigfan lle'r wy 'n hoffi byw.

3 " Yr enaid iſel, wrth fy ngair,
" A'r cyſtyddiedig a fywhair;
" Calonnau drylliog oll iachaf,
" A blinder meddwl eſmwythaf.

4 " Am bechod pan y coſpwyf ddyn,
" Gwnaf iddo wel'd ei ffiaidd lun;
" Ond pe bai i'm llid dros byth barhau
" Fe ſoddai 'u henaid yn ddilai."

5 Dy ras maddeuol ſo ger llaw;
Rhag in' ymollwng dan dy law;
Fel hyn bydd hyfryd gennym ni
Am ffyrdd dy dadol gerydd di.

D. J. o W.

HYMN XXIV. (M. C.)

Gweithredoedd daionus Duw.

1 MOR ddoeth yw 'r bod a wnaeth y byd!
Mor gadarn hefyd ydyw!
O mor anfeidrol hanfod Duw!
Moliannus yw ei enw.

2 Mor rhyfedd yw 'r greadigaeth faith!
Mor gyſon waith ei fyſedd!
Holl luoedd y ffurfafen las
Lefarant maes ei fawredd.

3 Mor fawr yw cyrph yr wybren fry,
Sy'n cyd-fynegi 'i foliant!
Yr haul a'r ſer, a'r lloer y ſy
'N cyd ganu ei ogoniant.

4 Y ſychder maith, a'r dyfnder mawr,
Bob munud awr a'i molant;
A'r holl gre'duriaid dan y nef
Ei allu ef a draethant.

5 Mor llawn yw'n dae'r o luniaeth da,
I ddynion a 'nifeiliaid!
Mor fawr yw lles y gwres, a'r glaw,
A rydd ei law fendigaid!

6 Ond gymmaint mwy rhyfeddol yw
Trugaredd Duw a'i gariad,
Yn rhoi ei anwyl Fab ei hun
I fod i ddyn yn geidwad!

7 Myfyria 'n graff ar wrthiau 'r groes,
Tra paro f'einioes freuol;
A chofiaf fry *Galfaria* fryn,
A'i ffrwythau yn drag'wyddol.

B. F.

HYMN XXV. (M. H.)

Gweithio ein Iechydwriaeth. Phil. ii. 12.

1 OS rhown ein bryd, fe ffynna'n gwaith,
Ar weithio 'n iechydwriaeth faith;
Er gwaetha 'r byd daw'r gwaith i ben,
Ni fyddwn yn y nefoedd wen.

2 Er amled yw peryglon byd
O ddautu 'r bywyd hwn o hyd,
Gochelwn droi a gado 'r gwaith,
Trwy fendith Duw, dibenna 'n taith.

3 Cyn elo' bant ein dwyfol fraint,
Cyn delo chwant i'w gyflawn faint,
Dechreuwn ddilyn deddfau Duw;
'Fe archodd ini ddechreu byw.

4 Na rown mo'n blys na blodeu'n hoes
At waith y Diafol, fy mor groes,
Rhag methu o'r nerth, a dyblu'r gwaith
O weithio 'n iechydwriaeth faith.

5 A chalon bur, tra byddom byw,
Wrth ddilyn rheol deddfau Duw,
Trwy ddyfal boen, a gofal tyn
Mae dwyn i ben y gorchwyl hyn.

6 Dod gymmorth ini, Arglwydd, 'nawr,
Ein nerth fydd fach, ein gwaith fydd fawr,
Tyr'd gyd â ni, dod in' dy nawdd,
Ein ffordd fydd rhwydd, ein gwaith fydd hawdd.

J. J.

HYMN XXVI. [M. H.]

Dydd Gras a Gobaith. Preg. ix. 4, 5, 6, 10.

1 MEWN bywyd mae gwas'naethu Duw,
Dydd gras a iechydwriaeth yw;
Tra dalo 'r lamp i loſgi maes,
Fe all y gwaetha' droi, trwy' râs.

2 Bywyd yw 'r amſer roddes ef
I ochel uffern, ffoi i'r nef;
Y dydd gall pechaduriaid gwael
Fendithion i'w heneidiau gael.

3 'Fe wyr y byw mai marw wnant,
A'r meirw i dir anghof ânt;
Fe ddarfu eu cof a'u ſynwyr hwy,
Ni adwaenant ac ni adweinir mwy.

4 Fe ddarfu eu cas a'u cariad 'nawr,
A'u malais gladdwyd yn y llawr;
'Does iddynt ran o'r gwaith na'r draul,
Nac o'r trafferthon ſy dan haul.

5 Am hynny 'r hyn ſydd yn ſy mryd,
Boed imi ei wneud a'm hegni i gyd;
Can's gwaith, na dyfais, o un wedd
Nid oes, na gobaith yn y bedd.

6 Ni cheir pardynau i ryddhau
Mewn bedd, lle'r ydym ni'n neſau;
Ond angau a thywyllwch du
Byth yno yn teyrnaſu ſy'?

D. L. o W.

HYMN XXVII.

I Bobl ifainge..

1 RHOWCH gluſt, chwi Ie'ngctid glân,
Yſtyriwch eiriau dwys;
Er oed, er grym, er grân,
Yn fuan ewch dan gwys:
Ffowch chwantau triſt,
Chwi iengctid ſfol,
A dewch yn ôl
At *Ieſu Griſt*.

2 Mae Duw, mae'r Ieſu cu,
Yn diſgwyl am eich tro;
A'r holl angylaidd lu
Llawenant pan y bo:
Ffowch, &c. &c.

3 Mae gweinidogion gwiw
Mewn gwewyr yn y gwaith;
A duwiol deulu Duw
Yn llefain, nid yn llaith;
Ffowch, &c. &c.

4 Mae gras a groeſo i' gael,
Diffael yw geiriau Duw,
Fe roddir hwn yn bael
I'r gwael weddiwyr gwiw:
Ffoweh, &c. &c.

5 Meluſach hawſach yw
Gwas'naethu Duw 'n ddigel,
Na chwantau dynol-ryw,
Sy a'u coſp yn ſiwr dan ſêl:
Ffowch, &c. &c.

6 O pwyſwch hyn mewn pryd,
Clywch lâis trugaredd râd ;
Cewch goron deg ei phryd,
Drag'wyddol ei pharhad :
Ffowch chwantau triſt,
Chwi lengctid ffol
A dewch yn ol
At *Ieſu Griſt*.

E. G.

HYMN XXVIII. [M. H.]

Cofio 'r Creawdwr. Preg. xii. 1.

1 DEWCH, cymrwch eich cynghori 'n awr
I gofio 'eich Creawdwr mawr ;
Chwi bobol ifainge, dyma 'r pryd,
Cyn treulio 'ch dyddiau yn y byd.

2 Eich boreu euraidd paſſio wna,
Pa un a wnewch ai drwg ai da :
O coſiwch Dduw, a cheiſiwch râs,
Nac ewch ar ol y gelyn câs.

3 Llawenydd a digriſwch ffol
Sy'n arwain triſtwch ar eu hol ;
Eich dawns a dry yn alar triſt
Os byw a marw wnewch heb Griſt.

4 Os mynnwch ddiange rhag llid Duw,
Gadewch rai ffol, a byddwch fyw :
Anfeidrol yw 'r llawenydd ſy'
Yn ffarfar Duw, a'i gariad cu.

5 Duw, maddeu feiau 'n ie'ngctid ffol,
Rho ras i'n tynnu ar dy ol :
Pàr i ni 'n iawn dy gofio di,
Yn raſol coſia dithau ni.

O. R.

HYMN XXIX. [M. H.]

Llais Duethineb. Diar. viii. 34—36.

1 FEL hyn y d'wed Duethineb Duw,
" A wrendy'm llais i dedwydd yw,
" Gan wilio wrth fy mhyrth bob dydd,
" A diſgwyl am fy ngras y bydd.

2 " Y ſawl a'm cais, bydd iddo gael
" Anfarwol olud yn ddiffael:
" Anfarwol oes ei wobor yw,
" Bywyd yn wir, a chariad Duw.

3 " Ond y dyn gwael oddi wrthyf ffy,
" Sy'n gwneuthur oam a'i enaid cu;
" Ffyliaid i'm gair nid ufuddhaet,
" Ond caru 'r ffordd i angau wnant.

D. I. o W.

HYMN XXX. [M. C.]

Bodlonrwydd i Ewyllys Duw.

1 TRWY droiau 'r byd, a'i wên a'i wg,
Bid da, bid drwg y tybier;
Llaw Dduw ſy'n troi 'r cwmpaſgylch glân
Yn wiwlan, er na weler.

2 O'i dadol ofal ef a rydd
Yr hyn y ſydd gymhedrol,
O hawddfyd, adfyd, iechyd, cur,
On'd da ei gymheſur * fantol.

3 Pe rhoem ar geraint, oed, neu nerth,
Neu gyfoeth prydferth oglyd;
Os Duw a'i myn, fe'n teiſi i lawr,
A'n rhodres mawr mewn munud.

* Cydbwys.

4 Os yfaiſt gwppan llawn o'i lid,
A'th doi â gwrid a gwradwydd:
Os wyt gyfſ clêr, a buſtl i'r byd,
Fe'th gyfyd i fodlonrwydd.

5 Fe weryd wirion yn y frawd,
Rhag enllib tafawd atcas:
Fe rydd orphwyſfa i alltud blin,
Mewn anghynefin ddinas.

6 Ei gyſur ef ſydd yn bywhau
Y pennau gogwyddedig:
Fe ſych a'i law y llif ſy'n gwau
Hyd ryddiau 'r weddw unig.

7 Oes dim nac yn, na than, y nef
Nad Ef ſydd yn ei beri?
Ac Ef a roes (gwnaed dyn ei ran)
Y cyfan er daioni.

8 Pa raid ychwaneg? gwnelwyf hyn,
Goſteged gwyn a balchder:
Arnat ti, Dduw, fyngheidwad * glwys,
Bid fy holl bwys am hyder.

G. O.

* mwyn.

HYMN XXXI. [M. H.]

Credu i Gadwedigaeth. Ioan iii. 16, 17, 18.

1 NID i gondemnio dynol ryw
Yr ymddangoſodd Criſt, Mab Duw;
Un arf ni welwyd yn ei law,
Na thanllyd gledd i beri braw.

2 Ond cymmaint oedd toſtyri Duw,
A'i gariad rhad i ddynolryw,
Anfonai 'i Fab i ddwyn ein bai,
A chadw 'n henaid ni rhag gwae.

3 Dewch, bechaduriaid at Fab Duw,
A chredwch yntho, byddwch fyw;
Cyſuron fil o'i enau ddaw,
Bendithion ſyrdd a rydd ei law.

4 Ond cofp a damnedigaeth drift
A fydd i'r hwn fy'n gwrthod Crift;
Y rhai a'i diyftyrant E',
Yr uffern boethaf fydd eu lle.

D. I. o W.

HYMN XXXII. [M. C.]

Caru Criſt anweledig. 1 Ped. i. 8.

1 NID â'r golygon marwol hyn
Y darfu in' weld yr Iefu;
Ond credu i'w air ein henaid mae,
A llawenhau a'i garu.

2 Nis gwelwn àr y ddaear hon
'Mo wyneb llon ein ceidwad;
Etto 'n hyfrydwch ni bob eam
Yw meddwl am ei gariad.

3 A phan y b'om yn profi 'n wir
Ei gariad pur oddi uchod,
Ein henaid fydd yn llawenhau,
A'r nef fy'n dechreu iſod.

D. I. o W.

HYMN XXXIII. [M. C.]

Y Gwaredigion yn eſgyn i Seion.

1 YLlu o waredigion glân
Ddônt bawb ymlaen i *Seion*;
Llawenydd mawr y nefoedd wen
Fydd ar eu pen yn goron.

2 Fe lenwir eu geneuau glân
A pheraidd gân i'r Arglwydd;
Molant eu Duw ar nefol dir,
Mewn hwyl a gwir barodrwydd.

3 Ni bydd na lleſg, na ffol heb ddyſg,
Ymmyſg y bur gymmanſa;
Yn un y bydd eu per-lais fru
Yn canu Haleluia.

4 A goddiweddant nawn yn iawn
Lawenydd llawn a hyfryd:
Fe ddarfu holl ofidiau eu taith,
A'u trallod maith, a'u caethfyd.

5 Yn iach i bob cyſtyddiau mwy,
Eu galar hwy aeth heibio;
Eu triſtwch ffôdd i gyd i ſwrdd,
Ni ddaw i'w ewrdd hwy yno.

6 Cant weld y Bôd trag'wyddol mawr,
A hyfryd wawr eu Ceidwad;
Digonir blys eu nefol chwant,
Llonyddant yn eu cariad.

7 Fe wneir y ſaint yn nhŷ eu Tad
Yn gyd-ſtâd a'r angylion;
Dros byth fe bery eu llawen ddydd;
O ddedwydd waredigion!

8 Aed pleſer byd, a chnawdol chwant,
Yn llwyr i bant o'm henaid;
Help, Arglwydd, help i ddod yn hŷ
I blith y llu bendigaid.

D. E. o W.

HYMN XXXIV. [M. H.]

Rhagoriaeth y Nefoedd, a hiraeth am dani.

1 DY heddwch, lon, a gwel'd dy wedd,
Yw 'n cyſur mwyaf hyd y bedd,
Ond gwell fydd im' gartrefu 'n llon
Yn nef y nefoedd gar dy fron.

2 Os hoff oedd bod o fewn dy dŷ,
Mae pleſer gwell yn d'eglwys fry;
Dafnau gorfoledd yma gawn,
Cawn yno for gorfoledd llawn.

3 Os hyfryd yw, mewn amal wlad,
Gael trem o bell ar dŷ fy nhad,
Hyfryttach fydd yn llys y nef
Gymdeithas agos hoff ag ef.

4 Mewn meddiant llon, a llawn fwynhad,
O ryfedd iechydwriaeth rad,
I roddi byth, mewn eitha hoen,
Galonnog fawl i Dduw a'r Oen.

5 Hiraethu 'r wyf am gael fy nwyn,
Ar aden gref rhyw angel mwyn,
Ar frys i blith y firiol lu
O frodyr a chyfeillion fry:

6 'Rhai fydd a mawl fyth ar eu min,
Heb unrhyw bla, na phechod blin,
Ar ddelw hardd eu Prynwr mawr,
Mewn gwisgoedd fel goleuni 'r wawr.

D. D.

HYMN XXXV. [M. C.]

MOSES *a* CHRIST, *neu Bechodau yn erbyn y Gyfraith a'r Efengyl.*

1 TRWY *Foses* daeth y gyfraith bur;
Ond heddwch, gwir, a chariad,
A ddaeth i bechaduriaid trist
O'r nef, trwy *Grist* ein ceidwad.

2 Yn nhŷ Dduw, gyd â llawnder llwydd,
Pob un ei swydd cyflawnodd;
Moses fu ffyddlon was ger bron,
Ond *Crist* Mab ffyddlon ydoedd.

3 Am hynny rhown ufudd-dod ffydd
I'w eirchion newydd odiaeth:
Ar holl dy 'i Dad yr *Iesu* fydd
Yn llywydd ac yn bennaeth.

4 Y dyn ddirmygai gynt o'i fodd
Y gyfraith ddygodd *Moses*,
Yn ddidrugaredd marw c'ai,
Sef am ei fai rhyfygus.

5 Ond fe ddaw toſtach coſp na hyn
Ar ddynion cyndyn anſad,
Sydd yn dibriſio 'ſengyl *Criſt*,
Heb roddi cluſt i'w alwad.

D. I. o W.

HYMN XXXVI.

Y wlad well. Heb. xi. 16.

1 GWLAD dda yw'r neſol wlad, mae'n well
Nag un er wyneb dae'r ymhell
Gwlad helaeth ffrwythlon yw;
Gwlad gadarn gref, yr hon ni ddaw
Un gelyn byth i beru braw
I'r rhai ſydd yno 'n byw.

2 Gwlad heſyd o wybodaeth fawr,
Tu hwnt i ddim ſydd yma 'n awr
O fewn i gyrraedd dyn;
Mae dan lywodraeth o'r fath ryw,
A ſut gyfreithiau, ſel nad yw
Yn gwaſgu o'u deiliaid un.

3 Mae tymmer pawb o'i mewn mor dd[illegible]
Fel nad oes dim ſut byth a ffrâ
Na chynnwrf yn eu plith:
Nid oes na chur na chleſyd mwy
I'w gwaſgu nac i'w blino hwy;
Nid yw 'nhwy 'n meirw byth.

4 Am hynny pam mae neb mor ffol,
A gado i'w ſerch i fyn'd ar ol
Y byd anhyfryd hwn?
Gan fod gwlad well tu draw i'r bedd,
A gwlad o wynfyd, hawddfyd, hedd?
Hi haeddai 'nghalon, gwn.

5 Ac heſyd pam, ſel pe ni bai
Yn gobaith, y mae rhai 'n triſthau
Ar ol y cyſiawn cu?
Mae'n ſwy angenrhaid trwſio i fynd,
Yn amſer Duw, i gwrdd a'n ffrynd,
I'r *Ganaan* freiniol fry.

R. R.

HYMN XXXVII. [M. C.]

Toſtyri Criſt ir gwan a'r profedig.

1 YN llawen iawn goſodwn 'maes
Fawr ras ein Harchoffeiniad;
Un yw o galon dyner iawn
A llawn 'myſgaroedd cariad.

2 Cyd-deimlo mae a'n natur wan,
Fe wyr mor egwan ydyw;
Gŵyr beth yw profedigaeth gref,
Can's teimlodd ef y cyſtyw.

3 Ond diddrwg a difai o hyd
Ein Prynwr hyfryd ſafodd,
Wrth oddef tanllyd ſaethau 'r fall
Hyd waed, heb ball, gwrth 'nebodd.

4 Yn nyddiau 'i egwan gnawd r oedd e'
Yn tywallt llef a dagrau;
Cyd-deimlo ettò mae, pan f'o
Un aelod iddo 'n diodde'.

5 Ni ddiffydd lîn fo'n mygu byth,
Yn llaw fe 'i chwyth yn hytrach;
Y gorſen yſig byth ni thyr,
Y gwan fe 'i gyr yn gryfach.

6 Am hynny, yn ei nerth a'i nawdd,
Rhown ninnau 'n bawdd ein hyder;
Cawn waredigaeth gantho fo,
Mewn amſer o gyfyngder.

D. I. o W.

HYMN XXXVIII. [M. H.]

Cariad brawdol.

1 CYD unwn bawb, o anian bur,
Mewn cariad llawn ac undeb gwir:
Na chaffed yſpryd diſerch triſt
Yſgaru rhwng aelodau Criſt.

2 Bid cariad fyth, fel afon faith,
Y 'n canlyn yma ar ein taith;
A phob ymryfon peidied mwy;
Rhydd hyn i bechod farwol glwy'.

3 Gan rinwedd îr yr afon hon
Tyf ein graſuſau oll yn llon;
Pob nefol nodd a rydd i ni,
A melus brawf o'r gwynfyd fry.

4 O na 'bai 'r anian hon o hyd
Yn llanw 'nghalon tr'wy 'n y byd!
Cynhaliai hyn fy enaid prudd
Ymhob tymheſtlog ddyrys ddydd.

T. M.

HYMN XXXIX. [M. H.]

Cariad ac Anghariad.

1 NID bwyd na dillad o un rhyw
Sy'n gwneud i fynu deyrnas Dduw;
Cyfiawnder a thangnefedd llon
Yw gwir gynheddfau 'r deyrnas hon.

2 Dirmygu 'r gwan, a'i wneud yn driſt,
Sydd dymmer groes i 'fengyl Griſt;
Yr Arglwydd doeth a gralol fy'
Yn caru 'r gwan ynghyd â'r cry'.

3 Ymaith o llid a balchder mwy;
Addfwynder, cariad, ceiſiwn hwy;
Ac ni thramgwyddwn neb o'r ſaint,
O ba eglwyſi bynna' maent.

D. I. o W.

HYMN XL. [M. C.]

Cariad a Chymmwynasgarwch. 1 Cor. xiii.

1 YMFFROSTIED beilchion *Phariſ'd*
O'u zel, a'u cred, a'u doniau;
'Dyw crefydd rhai'n ond breuddwyd prudd
Os cariad fydd yn eiſiau.

2 Cariad ſy'n godde 'n ymarhous,
Nid yw gyffrous i ddigio;
Maddeu preſennol gamwedd mae,
Anghofio 'r rhai aeth heibio.

3 Malais a llid, uffernol dân,
A'i thafod glân a ddiffydd;
Gobeithia, cred, ni feddwl ddrwg,
Ond cam a ddwg o'i herwydd.

4 Ni chais, ni chwennych wybod chwaith,
Am athrod diffaith dynion;
Di'ſtyru 'r tlodion nid yw hi,
Na chynſigennu 'r mawrion.

5 A'i hunan-fantais yr ymad,
Er mwyn lleſhad cymmydog;
'R un modd a Chriſt yn myn'd i'r gro's,
I farw dros rai euog.

6 Cariad yw'r gras mewn grym a fydd,
Yngwledydd y gogoniant;
Ffydd, gobaith ffo'nt i ffwrdd fel rhith,
Ond ſeintiau byth a garant.

D. I. o W.

HYMN XLI. [M. H.]

Ar Farwolaeth.

1 MAE angau yn teyrnaſu 'n hŷ
Dros ddirfawr lu 'r holl ddaear lawr;
Pwy ddiangc rhagddo fel nas try,
Er maint eu bri, i lwch y llawr?

2 Pechod enneiniodd gynt ei ben,
A rhoes deyrnwialen yn ei law;
Rheoli wna is wybrol len,
Nes gorphen ei frenhiniaeth draw.

3 Aiff tywyſogion mawr y byd
Yn gaeth i gyd gan frenhin braw;
A chaiff y tlawd orphwyſfa glud,
Heb briſio 'u llid, nac ofni 'u llaw.

Ond mae boreu-ddydd etto 'n dod,
Pan droir y rhod ar angau hŷ;
Pan ddiangc pawb o dan ei nôd,
Cant lwyr ollyngdod oddifry.

T. M.

HYMN XLII. [M. H.]

Marwolaeth y Saint.

PAM y triſtawn ar ol y ſaint?
Nid marw ond ymadó maent:
'Dyw angau ond cennad Criſt o'r nef
I'w galw hwynt i'w freichiau ef.

Ac onid ydym ninnau o hyd
A'n tynſa tu a'r nefol fyd?
Gan chwennych gwel'd yr awr, gael mynd
At Ieſu ein hanwylaf ffrynd?

Pam yr arſwydwn mewn un wedd
Wrth ddodi cyrph y ſaint mewn bedd?
Yno bu corph yr Ieſu cu
Gan beraroglu'r bedd i ni.

Ond cododd Criſt, i'r lan fe aeth,
A dangos ini 'r ffordd a wnaeth
At Dduw, lle hêd ein llwch o'r llawr,
Ar ddydd yr adgyfodiad mawr.

Yr udgorn ola' ſeinia 'n ſyn,
Gan alw 'r meirw i gyd bryd hyn:
"Dihunwch, bobloedd," fydd ei lef,
"A'r ſaint, eſgynnwch fynu i'r nef."

D. I. o W.

HYMN XLIII. (M. C.)

Gobaith am y Nefoedd yn cymmodi 'r Criſtion a Dioddefiadau 'r Bywyd hwn. 2 Cor. iv. 17.

OS yw 'n goſiadau yn y byd
I bara hyd y diwedd;

O fewn y nef fe dderfydd hyn,
Try 'r triſtwch yn orfoledd.

2 Pa fwya gawn o wres y dydd
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn yn lle 'n cyſtydd blin a'n crwys
Drag'wyddol bwys gogoniant.

3 Fe orfu i'n deithio, nid o'n bodd,
Trwy filoedd o flinderau;
Ganwaith bu'n tyb na ddaem uch nen,
Byth, byth i ben ein ſiwrnai.

4 Ni orphwyſwn mwy nes dringo 'n llawn
I'r man y cawn breſwylio,
I'r lan i ben y tawel fryn,
Mae miloedd yn diſgleirio:

5 Anneirif dorf, a chyſon gôr,
Angylion o'r diſgleiria,
Seraphiaid pur, a ſaint ynghyd,
Yn canu i gyd Hoſanna.

6 F'enaid blinedig yn eu plith
Yn dawel byth caiff orphwys:
'Nol teithio 'ngwres yr haul o'r dydd
Y neſoedd fydd yn felus.

7 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron
Holl chwerwon ddyfroedd Mara;
Pryd hyn y try pob chwerw nant
Yn win i blant Jehoſa.

W. W.

HYMN XLIV. [M. C.]

Dydd yr Arglwydd, neu Hyfrydwch mewn Ordinhadau.

1 O Groeſaw ddydd gorphwysdra a hedd,
'R aeth Criſt o'r bedd i fynu!
Fy nghalon ſydd a'r llygaid hyn,
O'i weled yn llawenu.

2 Y Brenhin mawr ſydd yn neſau
I wledda 'i ſeintiau heddŷ';
Cawn eiſtedd yma, a gwel'd ei bryd,
A'i foli o hyd, a'i garu.

3 Un dydd yn wir meluſach yw
Lle byddo Duw yn dyſod,
Na myrdd o ddyddiau i'w mwynhau
Yngwael bleſerau pechod.

4 Fy enaid, mewn ſath hwyl a hon,
Arhoſai 'n ſodlon hollol,
I ganu ac ymdreulio o hyd,
Nes myn'd i'r gwynfyd bythol,

D. I. o W.

HYMN XLV. [M. C.]

Llawenydd neſol ar y Ddaear.

1 CHwychwi ſy'n caru 'r Arglwydd, dewch,
A llawenhewch yn ſanctte'dd;
Cyd-unwn mewn caniadau pur,
Gan amgylchynu 'r orſedd.

2 Na adewch ddim blinder yma'ch cwrdd,
O'ch meddwl ffwrdd ef gyrrwch;
Nid diben crefydd yw 'n triſtau,
Na gwneud yn llai 'n diddanwch.

3 Os paid y rhein'y ganu clod
Na 'dnabu erioed mo'r Arglwydd,
Chwi, garedigion Brenin nef,
Cyd-ſolwch ef yn hylwydd.

4 Y Duw ſydd yn teyrnaſu fry,
Ac yn taranu o'r nefoedd,
Sy'n marchog ar y cwmmwl du,
A llywodraethu 'r moroedd.

5 Y Duw ofnadwy hwn yw'n Tad,
A'n hanwyl gariad hefyd,
Fe ddenſyn lawr angylion lu
I'n dwyn ni fynu i'r bywyd.

6 Cawn yno wel'd ei wyneb gwyn,
Heb bechu yn dragywydd:
Ac o aſonydd gras y cawn
Fyth yſed llawn ſodlonrwydd.

7 Ie, cyn ein myn'd i'r nefol wlad,
A'r cyfryw 'ſtad anfarwol,
Dylai y fath feddyliau a'r rhai'n,
Ein llawenhau 'n waſtadol.

8 Can's dynion grafol profi wnant
Ogoniant yma 'n dechreu;
Oddiwrth wir ffydd, a gobaith cry'
Gall dyfu nefol ffrwythau.

9 Ar fynydd *Seion* wrth ein blys,
Cawn bethau melus filoedd;
Cyn myn'd i lyw i'r nefol fro,
Neu rodio 'r auraidd 'ſtrydoedd.

10 Am hynny canwn glod i'n Duw,
Ynghanol pob rhyw drallod;
Ein ffordd trwy dir Immanuel ſydd
I wychach gwledydd uchod.

D. I. o W.

HYMN XLVI. [M. B. neu C.]

Ail Ddyfodiad Criſt.

1 (DYFAL) ddiſgwyliwn bawb yn brudd,
Am wel'd y dydd godidog,
Pan ddaw'r ail waith o'r nef i lawr
Y Llywydd mawr galluog.

2 (Dirfawr) ofnadwy fydd y dydd
I'r rhai di-ffydd a gwawdiog:
Fe lyſg fel ffwrn y balch a'r ffol,
A'r llu annuwiol llidiog.

3 Ond dedwydd iawn a (hyfryd) fydd
Y cyfryw ddydd i'r cyfiawn:
Cant hwy fwynhau trag'wyddol hedd,
A gwir orfoledd cyflawn.

4 Gwel Farnwr (cadarn) dyn yn d'od!
Gwel hynod frenhin Salem!
O mor anhebyg 'n awr yw Crift
I'r baban trift o Fethl'em!

5 Pob llygad (dyn y) 'n awr a'i gwel,
Ar gwmmwl uchel diſgler:
Yr haulwen dry yn rhyfedd wael
Pan gyfyd Haul cyfiawnder.

6 Llais (uchel) udgorn angel Duw
Yn chwilfriw ddryllia 'r creigiau;
Dihuna 'r meirw fy 'n y mor,
Neu 'n briddell oer mewn beddau.

7 Yn fuan (deuwch) bawb i'r farn,
O flaen y cadarn Lywydd!
Y cawr annuwiol crynu wna,
Ond hy yw 'r da, a dedwydd.

8 " Dewch, { anwyl / fendigedig } blant fy Nhâd,"
Medd Crift eu ceidwad grafol,
" Mwynhewch y deyrnas wych a rhad
" A rydd eich Tad trag'wyddol.

9 " Ond chwi 'r (diras) annuwiol rai,
" A'r fintai felldigedig,
" Oddiwrthyf ewch i uffern ddu,
" Lle lloſg 'r llu cythreulig."

10 O (dirion) Dad, creawdwr dyn!
Mi dafla f'hyn yn gyflawn
Ar dy Drugaredd ryfedd rad,
Yng Nghrift y ceidwad cyfiawn.

B. F.

HYMN XLVII. [M. H.]

Pererindod y Saint, neu Ddaear a Nefoedd.

1 DUW, pa druenus wlad yw hon,
I bererinion ar eu taith!
Dim iachus goed, na ffrwythau llon,
Na ffrydiau o gyfur bywiol chwaith.

2 Ond pigog ddrain ſy trwy 'r holl dir,
A gwenwyn marwol dyf yn llawn;
A'r holl afonydd yma 'n wir
Sy'n llifo o ddyfroedd embaid iawn.

3 Etto trwy 'r cyfryw erchyll le
Mae 'r llwybyr cul tu a thy ein Tad:
Dymunem gadw 'r ffordd i'r Ne',
Duw, boed i ti gyfrwyddo 'n traed.

4 Bwystfilod rheibus gair yn llu
O ddeutu 'r goedwid ymhob lle;
Ond Llew o Juda 'n barod ſy
I'n cadw, a'n harwain oll i dre'.

5 Noſweithiau hirion tywyll prudd,
At ambell lewyrch yma gawn;
Ond un trag'wyddol ddedwydd ddydd
Sydd yn y diſglair fyd lle 'r awn.

6 Trwy ddrain a dryſni mae ein taith,
Ond dringo i'r lan a wnawn er hyn;
Anghofio 'n holl flinderau maith,
Gael cyrraedd fry i Seion fryn.

7 Mae wrth y pyrth angylion lu,
I'n gwa'odd yn g'ruaidd mewn i'r ne';
Groeſawi cair yr Ieſu cu
Y pererinion oll i dre.

8 Fry ar flodeuog wyrddlas fryn,
Caiff ein heneidiau eiſte' lawr,
A chyfri 'n llawen y pryd hyn
Ein teithiau blin trwy 'r anial mawr.

9 Gwagedd ni lygra 'n tafod glân,
Gwael bethau blin ni ddaw i'n clyw;
Anfeidrol râs a fydd ein cân,
A'n gwrando hyfryd y bydd Duw.

10 Tragwyddol glod i'r brenhin da
A'n dygodd ni yn iach trwy 'r byd!
Ein tafod gorphwys byth ni wna,
Ond canu 'i foliant ef o hyd.

D. I. o W.

HYMN XLVIII. [M. C.]

Brenhiniaeoh Criſt.

1 NI thyccia gwaith gelynion Criſt,
Mae 'u bwriad triſt yn ofer,
Yn erbyn ei lywodraeth gre';
'Fe bery yn ei bwer.

2 Goſododd Duw ei hun o'r nef,
A llaw gref yn dragywydd,
Y brenhin Ieſu 'n llywydd llon
Ar ſanctaidd Seion fynydd.

3 Am hynny, enaid, plyg bob awr,
I'r brenhin mawr rhagorol;
Ei berſon câr, a'i ddeddfau gwna,
Mae hyn yn dra rheſymmol.

4 Gorchfygu 'n calon wnelo 'i râs,
O boed ei deyrnas ynnom!
I'n cadw rhag pob drwg a braw
Ei alluog law boed droſom!

5 Duw, nad i'n gilio cam o'n lle,
A gado 'r llwybre union;
I'r brenhin Ieſu byth heb baid
Gwna ni yn ddeiliaid ffyddlon.

O. R.

HYMN XLIX. [M. H.]

Gwaſanaeth Griſt, ei Natur a'i Ddefnyddioldeb.

1 OS mynni, ddyn, was'naethu Criſt,
A diangc rhag y gyflog driſt
A dderbyn annuwiolion byd,
Tro at dy Brynwr mewn iawn bryd.

2 Gwas'naetha ef mewn pwyll a pharch,
A phrawf dy ffydd trwy gadw 'i arch;
Nid d'wedyd Arglwydd wrtho ef
A ddaw a neb i deyrnas nef.

3 Gwaſanaeth gwir ddeallus yw
Gwaſanaeth Criſt, a gweddaidd gwiw;
Na chymmyſg ef a chyffro ſâl
Anwydau gwylltion gweigion gwael.

4 Gwaſanaeth ffyddlon yw bob rhan,
Ar air a gweithred ymhob man;
Bydd dithau ffyddlon trwy barhâd,
Os mynni ddo'd i dŷ dy Dad.

5 A barcho Griſt fe barcha 'i hun,
Trwy gael llywodraeth ar bob gwŷn;
Gwas'naethwyr ammarch bawb i gyd
Yw gweiſion pechod yn y byd.

6 Gwaſanaeth tra manteiſiol yw,
Cei, enaid, gyflawn fodd i fyw;
Rheolau Criſt os cedwi o hyd
Cei gyflawn fwyniant o'r ddau fyd.

7 Gwaſnaetha Griſt mewn iechyd llawn,
Pan fe'ch di 'n glaf cei gyfaill iawn;
Fe'th ddeil i'r lan, rho arno 'th fryd,
Pan ballo pob peth yn y byd.

E. E.

HYMN L. [M. H.]

Anrhydedd Gwaſanaeth Criſt.

1 CAIFF gweiſion a morwynion Criſt,
Tra ſo'nt dan bwys a gwres y dydd,
Ei weddi droſtynt at y Tad,
Fel na ddiffygio 'u hegwan ffydd.

2 Os cadwant ei orch'mynion ef,
A chalon gywir ar bob cam,
Efe a'u hoffa hwynt, bob un,
Fel anwyl frawd, neu chwaer, neu fam.

Fel mabwyſiadol blant ei Dad,
Cânt eu cyflwyno ganddo ef,
I Dduw yn eglwys lunïaidd lân,
Cymmwys i dderbyn teyrnas nef.

4 Cânt fod yn debyg idd' eu pen,
Mewn gwychder a gogoniant maith;
Ei ddull a'i ddelw brydferth ef,
Fydd ar eu gwedd, ac ar eu gwaith.

5 Nychdod na phoen ar un o'r rhai'n,
Henaint na methiant, byth ni bydd;
Pob cwmmwl tywyll tawdd i ddim,
Trwy loiw ddawn trag'wyddol ddydd.

6 Yngwlad goleuni gyd a Chriſt
Cyd-rodiant; ar ddedwyddol daith
Ant rhagddynt byth, o radd i radd,
Mewn breintiau gwiw, a mwyniant maith.

7 Hyn fydd anrhydedd gweiſion Criſt,
A'i lan forwynion union ef:
Fe 'u cynnal dan helbulon byd,
Fe 'u derbyn oll i deyrnas nef.

E. E.

HYMN LI. [M. C.]

Bywyd yn fraw, a Thragywyddoldeb yn tanlyn.

1 DRag'wyddol Arglwydd! o'th flaen di
'R addefwn ni rai di-rym,
Mor wan yw 'n pabell freuol hon,
Pa bryfed meirwon ydym!

2 Ein bywyd beunydd a fyrhâ,
Fel 'r amlha ein dyddiau;
Ac fel mae 'n *pyls* yn curo 'n glau
Felly neſau mae angau.

3 Y flwyddyn dry o ddeutu 'n glau,
A dirwyn mae 'n bywydau;
Ble bynna' bo'm, beth bynna 'n gwaith,
'R ym ar ein taith tua'n beddau.

4 I'n gyrru i'r llwch, o'n cylch mae 'n llawn
Beryglon mewn parodrwydd;
A heintiau llymion ymhob lle,
I'n hebrwng adre 'n ebrwydd.

5 O Dduw, ar ba fath edau frau
Mae bythol bethau 'n hongian!
Tragwyddol ſtad pob marwol ddyn
Ar linyn bywyd egwan.

6 Gwynfyd neu wae dibaid fydd rhan
Pob enaid pan êl ymaith;
Ac etto mor ddi-brîs yw dyn
Pan 'mae ar fin marwolaeth.

7 Duw, deffro 'n tymmer ſwrth yn frau,
I rodio 'r llwybrau embyd;
Ac os ar fyr ein ſymmud 'gewn,
Dwg di ni mewn i'r bywyd.

D. I. o W.

HYMN LII. [M. H.]

Hymn Anglad.

1 O'R beddau clywn alarus gri,
Megis pe gelwid arnom ni;
" Dewch, gwelwch ddynion byw y tir,
" Lle rhaid i'ch" orwedd cyn bo hîr.

2 " Wyr mawr, eich gwely fydd y clai,
" Er cuwch yw 'r tyrau mawr a'ch tai;
" Y dewr, a'r doeth, a'r gwycha 'i wedd,
" Cant orwedd megis ni 'n y bedd."

3 Alluog Dduw, ai felly daw?
A ni frauolion mor dd ifraw?
Yn neſu tu a'r bedd mor bell,
Ac etto heb 'bartoi yn well?

4 O rho dy ras i'n bywioghau,
Ac i'n cymhwyſo bawb yn glau,
Erbyn y cwympo 'r gnawdol len,
I fyw yn nheyrnas nef, Amen!

D. I. o W.

HYMN LIII. [M. C.]

Duw 'n ewyllyſio Cadwedigaeth pawb. Ezec. xxxiii. 11.

1 DYwedodd, tyngodd f' Arglwydd Dduw,
" Fel 'r wyf fi byw nid hoffaf
" Farwolaeth annuwiolion byd,
" Ond eu dychwelyd attaf."

2 Os dynol dadau a mammau plant
A garant eu hiliogaeth,
Pa gymmaint mwy y câr Duw Ion
Drigolion holl naturiaeth?

3 Ewyllys Duw yn amlwg yw
Fod pob dyn byw 'n gadwedig;
A thyna 'r achos fod ein Ior
I ddial mor hwyrfrydig.

4 'Fe brofodd Ieſu Griſt ei hun
Dros bob rhyw ddyn farwolaeth,
Fel y cai pob dyn gynnyg teg,
Ac adeg iechydwriaeth.

5 O carwn ninnau ddynolryw
Fel y mae Duw 'n eu caru!
Ceiſiwn yn gall eu rhwyſtro ar goll,
Ein dyled oll yw hynny.

6 Trowch, bechaduriaid, trowch at Dduw,
Y mae ef heddyw 'n galw;
Mae 'n cynnyg bywyd, ac O pam,
Paham y byddwch feirw?

J. R.

HYMN LIV. [M. H.]

Eſampl Criſt.

1 FY Mhrynwr cu! mor oleu cair
Fy holl ddyledſwydd yn dy air!
Ond yn dy fuchedd * waredd wiw
Mae wedi 'thynnu 'maes i'r byw.

* addfwyn.

2 Dy wir, a'th zêl dros Arglwydd nef,
A'th ymoſtyngiad iddo ef,
Dy gariad a'th addſwynder di,
O na baent oll yn eiddof fi!

3 Noſweithiau oer, mynyddau ſy;
Yn dyſtion o'th weddiau di
O'th demtiad tyſt ſu 'r anial le,
O'th ymdrech a'th or'chafiaeth gre'.

4 Bydd i mi 'n battrwn, Arglwydd mwyn,
Boed im' dy ddelw raſol ddwyn
Yna mi wn caf le ymhlith
Dilynwyr glan yr oen dros byth.

D. I. o W.

HYMN LV. [M. C.]

Calondid i'r Afradlon.

1 O Bechaduriaid! trowch yn ôl,
Na fyddwch ffol ymhellach;
Trwy ddilyn pechod yn y blaen
Eich cyflwr a'n embeittach.

2 Dewch, chwi ſy'mhell, tu â thy eich Tad
Dewch tu a gwlad bendithion:
Pa hyd y bydd i chwi barhau
I ſwytta cibau coegion?

3 Os trowch yn ôl, daw Duw yn rhwydd,
Daw 'n ebrwydd i'ch cyfarfod;
Heb ddannod daw, fel tyner Dad,
I faddeu 'n rhad eich pechod.

4 Mae ar eich meder roeſaw iawn,
Sef gwledd yn llawn danteithion;
Hardd wiſgoedd, canu, dawnſio ſy'
'N groeſaw 'r mab afradlon.

5 Afradlon fuom ni bob un,
Nid gwiw ein trin fel meibion;
Os cawn, O Dad, yn weiſion fod
Rhown iti glod o'r galon.

I. R.

HYMN LVI. [M. C.]

Cariad Duw yn rhoddi ei Fab. Ioan iii. 16.

1 CAnmolwn ryfedd gariad Duw
At ddynolryw mewn adfyd,
Trwy roi ei anwyl Fab yn fwyn,
Er mwyn eu dwyn i fywyd.

2 I'n prynu ac i'n dyfgu daeth,
(Gwych odiaeth ydyw'r newydd)
Mab Duw ei hun, a'n llywio'n llon
Wrth ddeddfau union crefydd.

3 Trwy Grift mae Duw yn maddeu bai
Yn rhwydd i'r rhai fy'n credu,
Gan fod yn ufudd tra font byw
I'r Prynwr gwiw, a'i garu.

4 Cadwedig fyddant byth trwy ras,
Fry mewn urddafol wynfyd,
Ymhlith rhai gwiw, a gwych eu gwedd,
Mewn annedd nefol hytryd.

O. R.

HYMN LVII. [M. H.]

Gobaith am y Nefoedd yn ein cynnodi âg Angau.

1 MAE Gwlad o wynfyd pur, heb haint,
Yn honno byth teyrnafa'r faint:
Plefer heb flinder yno fydd,
Fe ddarfu'r nos, daeth bythol ddydd.

2 Mae'i yno yn drag'wyddol haf,
Ni wiwa byth mo'i blodeu braf;
Ond angeu fel môr cul y fy'
Yn rhannu rhyngom a'r wlad fry.

3 Yr ochr hwnt i'r tonnau mawr
Mae meufydd gwyrddion hardd eu gwawr:

I Iſrael felly Canaan ſu
I'w gwel'd tu draw'r Iorddonen ddu.

4 Dan grynu yr â dynolryw
I groeſi'r mor, er culed yw;
Maent ar y traeth mewn aeth a braw,
Gan ofni morio droſto draw.

5 Duw, dyro ffydd i ymlid 'bant
'R amheuon ſydd yn blino'th blant!
A help i wel'd â golwg glir
Ardaloedd dedwydd Canaan dir.

6 Fel Moſes gynt, pe gallem ni
Ond gwel'd y wlad addewaiſt ti,
Nid ymchwydd mor, nid angeu caeth,
A allai'n troi oddi ar y traeth.

D. I. o W.

HYMN LVIII. [M. H.]

Yr Adgyfodiad.

1 GWirionedd yw, ſe'i cadarnhair
Gan Dduw yn oleu yn ei air,
Fod etto adgyfodiad mawr
I'r meirw oll ſy'n llwch y llawr.

2 Fe adgyfododd Ieſu Griſt,
A thorrodd rwymau'r angau triſt;
Blaenffrwyth yw ef, o'i ol y daw
Llu mawr o'r bedd i'r bywyd draw.

3 Mae cyrph y ſaint ſy'n llwch y bedd
Dan rwymau gwir gyfammod hedd;
Diau cyfodir hwy gan Dduw
O waelod bedd i dir y byw.

4 Cyfiawnder Duw ſy'n gofyd dod
I'r lan o'u beddau bawb ſy'n bod,
Fel y derbyniont ar ddydd brawd
Yn ol eu rhodiad yn y cnawd.

5 Daw'n Harglwydd ar gymmylau'r nef,
Rhydd yr Arch-angel uchel lef:
Nes daccloi'r beddau yn y man,
A dod o'r meirw i gyd i'r lan.

6 Duw, rho dy help, cyn myn'd i'r bedd,
I ymbar'toi; rho in' dy hedd;
A thrwy dy ras, cawn ninnau'r fraint
O adgyfodi gyd a'r ſaint.

O. R.

HYMN LIX. [M. C.]

Gogoniant Criſt yn y Nefoedd.

1 LLawenydd a hyfrydwch ſy'
Trwy'r nefoedd fry'n ymdannu,
Wrth weled tegwch Criſt, a'i ras,
A'i urddas yn llewyrchu.

2 Mawrhydi, cariad mwyn, a hedd,
Sydd yn ei wedd yn gwenu;
Ac ar bob llaw mae'r lluoedd llon
Bawb ger ei fron yn plygu.

3 Teyrnwialen deflir ger ei fron
Gan fawrion dywyſogion;
A llawenheir, trwy eitha'r lle,
Ei wel'd E'n gwiſgo'r goron.

4 'R angylion yn ei foli ſydd,
Trwy'r holl heolydd nefol,
A rhoi anrhydedd a mawrhâd
Lawr wrth ei draed brenhinol.

5 Ei draed, fu gynt yn diodde' cur,
Fu'r hoelion dur yn dorri,
Ar orſedd ddiſglair ſefyll maent,
A'r ſaint ſydd yn addoli.

6 A phen ardderchog Iesu cu,
Os drain a fu'n ei gìwyfo,
Gogoniant dirfawr 'nawr y fy'
O'i amgylch fry'n difgleirio.

7 Hwn ydyw'r dyrchafedig ddyn,
Heb wel'd, y'm ni'n addoli;
Pan gaffom arno olwg lawn,
Rhagorach cawn ei garu.

D. I. o W.

HYMN LX. [M. H.]

Deued dy Deyrnas.

1 O Arglwydd, deu'd dy deyrnas di,
Dros holl derfynau'n daear ni;
Gwna'r ddae'r yn ufudd fel y nef
I ddeddfau dy lywodraeth gref.

2 Lle 'nawr y tann tywyllwch du,
Difgleiriei goleu'r 'fengyl gu;
Lle tyf anwiredd o bob rhyw,
Boed purdeb a chyfiawnder gwiw.

3 Yn lle pob blin ddinyftriol bla,
Yn trochi'r dae'r, y drwg a'r da,
Dylifed mawr lawenydd maes,
Fel afon gref, o ffynnon gras.

4 O dwg y pell Genhedloedd oll,
A'r luddew dall, fu'n hir ar goll,
Yn hawddgar lu i'th eglwys lân,
I lawenhau dros fyth o'th flaen.

5 Cydganu a wnaed pob genau 'nawr,
Dros dir a mor, i'th enw mawr:
O lleda'th faner trwy'r holl fyd,
Ac una'r nef a'r ddae'r ynghyd!

E. F.

HYMN LXI. (M. C.)

Danfoniad Criſt.

1 DYrchafwn glod i'n Harglwydd glan,
Mewn hyfryd gân anfarwol;
Dadſeinier trwy'r holl ddaear faith
Ei ras a'i waith rhyfeddol.

2 Duw o drag'wyddol ſerch a rodd,
O wir-fodd ei anwylyd,
I'n codi ni, druenus rai,
O bydew gwae a gofid.

3 Daeth heb un daran yn ei law
I beri braw a ſyndod,
Na bollt i'n gyrru bawb yn glau
I lawr i'r fflamiau iſod.

4 Trugaredd lanwai'r faingc i gyd,
Goſtegodd llid yn hollol,
Pan y daeth Criſt a phardwn pur
I wrthryfelwyr marwol.

5 Dewch bellach, bechaduriaid gwan,
At Griſt, nac anobeithiwch,
A phlygwch i'w deyrnwialen fo,
Derbyniwch ganddo heddwch.

6 I'th alwad, Arglwydd, ufuddhawn,
A derbyn wnawn o ddifri',
Yr iechydwriaeth ddygaiſt ti,
A charu a moliannu.

D. I. o W.

HYMN LXII. [M. C.]

Y Goſtyngedig a anrhydeddir.

1 YR enaid hwnnw dedwydd yw
Sy'n ofni Duw yn waſtad,
Gan rodio'n oſtyngedig prudd
Tra peri dydd ei broſiad.

2 Caiff hwn fwynhau anrhydedd hir,
O fewn y tir lle byddo;
Pob cyfoeth gwir, a gwynfyd pur,
Gan Dduw a roddir iddo.

3 'Nol gorphen yma ei ddyrys daith,
Caiff wynfyd maith di-derfyn;
Gan Dduw yr hedd, tu draw i'r bedd,
Ei lawn anrhydedd derbyn.

4 Cyhoeddir yno floedd o'i flaen,
Mewn fain cân a gorfoledd,
"Fel byn y gwneir i'r enaid cu
"A godir i anrhydedd."

T. M.

HYMN LXIII. [M. H.]

Lleſhad Ordeinhadau cyhoeddus.

1 ODdi wrth bob gofal bydol ſy',
Ein henaid, Arglwydd, ymaith try;
Y byd a'i bethau gwael gadawn,
A diſgwyl wrth ein Duwia wnawn.

2 Yn nhemlau'th ras, O Arglwydd, cawn
Dy weled a'th addoli'n iawn;
Ac edrych ar dy wyneb cu,
A'th nerth a'th degwch yn dy dŷ.

3 Tra fo'm yn cwyno'n heiſiau wrth Dduw,
Ei gluſtiau ef yn glau a glyw;
Mewn atteb i'n gweddiau gwael
Fe rydd o'r nef tendithion hael.

4 Os cnawd a phechod ſy'n cryfhau,
Cawn air o gyſur yma'n glau;
Awchlymmu gawn yr arfau gwiw
I ymladd etto ryfel Duw.

5 Os ein hyſprydoedd a leſgânt,
A'n cydwybodau'u clwyfo gânt,
Cwyd Haul cyfiawnder yma'n glau,
Cawn eli o'i eſgyll i'n iachau.

6 Chwennych, O Dad, mae f' enaid i
Fod yn dy demel gyd a thi;
Ond os o'th dŷ ymado rhaid,
Bydd yn fy nghalon yn ddibaid.

D. I. o W.

HYMN LXIV. [M. C.]

Hyfrydwch Addoliad.

1 MOR deg yw'th bebyll di, O Dduw,
Mor hawddgar yw'th gynteddoedd!
Nid oes fath gu balafau gwych
Tu yma i entrych nefoedd.

2 Preſwylfa hardd y Brenhin mawr
Yw Seion werthfawr ſanctaidd:
Ei orſeddfainge ſydd yno fyth,
Ei fendith a'i anrhydedd.

3 Dy geiſio'n daer o fewn dy dŷ,
A'th ber foliannu fynnwn;
Cyd-wleddwn gyd a'th anwyl blant,
D' ogoniant yno gwelwn.

4 Mae un diwrnod yno'n well
Na mil ymhabell gwagedd:
Cawn yn dy dŷ gyſuron da,
Gwir felus, a gorfoledd.

5 Mae cadw drws dy demel lân
Yn llawer mwy anrhydedd,
Na byw'n gyfoethog gyd a'r ffol,
Mewn rhyw frenhinol annedd.

6 Gwyn fyd a drig o fewn dy dŷ,
Gan dy foliannu beunydd;
Cant wiſgo hardd ogoniant byth
A'u derbyn i'th lawenydd.

7 Pe meddwn i y ddaear faith
A'r holl gre'digaeth hynod,
'Madawn yn rhwydd a'r rhai'n bob rhan
Am drigfan yn dy wyddfod.

R. F.

HYMN LXV. [M. H.]

Cariad Criſt yn ein cymmell. 2 Cor. v. 14, 15.

1 OS meirw oedd pawb o ddynolryw,
Mor fawr oedd cariad f' Arglwydd gwiw,
Yn dioddef chwerwaf angau loes
Gan farw drofom ar y groes.

2 O enaid, gwel dy gyflwr gwael,
A dyſg ryfeddu'r cariad hael:
Bod Criſt yn marw i'th gadw'n fyw,
Rhyw gariad anghydmarol yw.

3 Er lles i ti cyfodi wnaeth,
Er lles i ti i'r nefoedd aeth:
Mae'n cofio'n anwyl ar bob pryd
Am bawb o'r eiddo fy'n y byd.

4 Pa beth a dalaf, Arglwydd, 'nawr
Am gariad mor anrhaethol fawr?
Fy nghymmell wnelo fel ffrwd gref,
A'm dwyn yn hollol gyd ag ef.

5 I bant y ffoed pob hunan ffol,
Tyn cariad Criſt fi ar ei ol;
Rho 'mryd ar fyw i'm Prynwr glân,
A dwyn ei achos ef ymlaen.

6 Mi geiſiaf mwy y pethau fry
Lle cyfannedda'm Harglwydd cu:
Ar fyr o dro caf fyn'd i dre,
A bod yn waſtad gyd ag E'

J. R.

HYMN LXVI. [M. C.]

Criſt yn Siampl i Blant a Phobl ifainge.

1 CHWI, bobl ifainge, rhowch eich bryd
Yn awr i gyd ar ddyſgu
Adnabod Duw, a chrefydd bur,
A dechreu ei gywir garu.

2 Ym moreu'ch dyddiau yn y byd,
A blodeu ie'ngſtyd hoyw-deg,
Mae dyſgu ffordd gorch'mynion Duw;
Cewch tra fo'ch byw eu rhedeg.

3 Golygwch Ieſu Griſt o'ch blaen
Yn batrwn glân rhagorol;
Dilynwch ef yn ſwy na neb
Ymhob doethineb nefol.

4 O! dyma'r plentyn hawddgar mwyn,
Da, doeth, ac addfwyn ydoedd,
O rodio'i gamrau pur, trwy ras
Fe'ch dwg i deyrnas nefoedd.

O. R.

HYMN LXVII. [M. B.]

Rhaid dilyn Criſt.

1 GRiſt'nogion, mawr eu braint,
O gwelwn ſaint ein rhwymau
I ddilyn Criſt, mewn parch mewn po'n,
Yn ufudd o'n calonnau.

2 'Dyw enwi enw Criſt,
Heb ofid triſt am bechod,
A gado'r ffaidd ffordd heb ffael,
Ond eſgus gwael neu gyſgod.

3 Pa beth dal codi llef,
A'i alw ef yn Arglwydd?
Yr Ieſu nid adnebydd neb
A fyddo heb ſancteiddrwydd.

4 Ond buchedd loiw lân,
Ac anian gywir union,
Urddaſol yw, a hawddgar iawn,
A chyflawn o gyſuron.

Ein taer ddymuniad yw
Cael help i fyw'n waſtadol,
Heb achos tramgwydd yn y byd,
Trwy ſywyd anghriſt'nogol.

6 Boed ein gweithredoedd da
Yn para i lewyrchu,
Nes caffom, fel yr haul ein lliw,
Yn nheyrnas Dduw deyrnasu.

J. R.

HYMN LXVIII. [M. C.]

Cariad Criſt at rai bychain, a'u cyſtwyno hwynt iddo.

Eſa. xl. 11. Marc x. 13—15.

1 GOlygwch Griſt ein Bugail mwyn,
Mor llawn o gariad cynnes;
Clywch ef yn galw am ei wyn,
I'w coledd yn ei fynwes.

2 Dygwch hwynt attaf, meddai ef,
Rhof iddynt wiw fendithion;
I ddwyn y cyfryw rai i'r nef
Daeth Arglwydd mawr angylion.

3 Rai ifainc, bawb, yn llawen dewch,
Taer geiſiwch ei ras nefol;
Ceiſiwch yn foreu, chwi a gewch
Ei nawdd a'i fendith fythol.

4 Wele hwynt, Arglwydd, derbyn di
Ein hanwyl blant a ninnau;
Dan d' ofal tyner buom ni,
Dan d' ofal byth b'ont hwythau.

5 Os yn ymddifaid gwael eu gwedd,
Heb dad neu fam, y byddant;
O! cadw hwynt yn llwybrau hedd,
Rho iddynt borth a ffyniant.

6 Os trengu wnant ymlodau'u hoes,
A'n gadael ni mewn triſtwch;
Pan fo'm yn godde'r chwerw loes
Cyfranna i'n ddiddanwch.

S. H.

HYMN LXIX. [M. H.]

Cyſtuddiau dan drefniad Duw.

1 DOETH Lywodraethwr mawr y byd
Sy'n cymmyſg da a drwg ynghyd,
Yn nhrefen ei ragluniaeth wiw,
Tu ag at ei blant o ddynoltyw.

2 Pob blinder a phob cyſtudd maith
A'n cyſarfyddo ar ein taith,
Mewn tawel fodd eu derbyn hwy
A ddylem ni, heb rwgnach mwy.

3 Y wialen pan gyffyrddo â ni,
Duw bia'r llaw ſy'n taro â hi;
I brofi gras, a gwella bai,
Ceryddu wna ei anwyl rai.

4 Os gwaſgir dafnau chwerwon 'nawr
I'n cwppan gan y Meddyg mawr,
Duw a'u bendithio hwy bob un,
I'n gwneud ni'n debyg iddo'i hun.

O. R.

HYMN LXX. [M. H.]

Byrdra Bywyd, a Chanlyniadau Marwolaeth.

1 BYR iawn a brau yw bywyd dyn,
Fel tarth, neu gyſgod gwag, neu lun;
Dim ond ymddangos yn y byd,
Ac yna pawb i'w ffordd i gyd.

2 Nid yw'n blynyddau oll yn llawn,
Ond ſaith o ddegau; byrrion iawn!
Rhai'n wir, trwy nerth naturiol mwy,
Gyrhaeddant un deng mlynedd hwy.

3 A'r rhai ſy'n cyrraedd amſer c'yd,
Eu nerth ſydd flinder yn y byd;

Rhaid marw oll yn ebrwydd iawn,
A gadael pob peth yma wnawn.

4 'Nol paſſio porth marwolaeth triſt,
Rhaid ſefyll o flaen brawdle Criſt,
I dderbyn barn o'i enau ef,
Yn ol cyfreithiau teyrnas nef.

5 Yr anffyddloniaid Duw a'i dyd,
Anhappus dyrfa, oll ynghyd,
I ddioddef coſp a beri byth,
Heb un drugaredd yn eu plith.

6 Ond d'wed y Barnwr wrth y Saint,
(Rhyfedd, O rhyfedd, fydd eu braint!
" Chwi fendigedig blant, O dewch,
" I lawen-fyd eich Arglwydd ewch."

O. R.

HYMN LXXI. [M. C.]

Cyſur ar ol Marwolaeth Cyfeillion Criſt'nogol.

1 OS 'madael mae ein brodyr mwyn,
Rhown heibio'n cwyn o'u herwydd,
Galaru'n fawr anweddus yw,
Can's maent yn byw'n dragywydd.

2 Beth os yw'r angau hyll ei rân
Yn rhwygo'n glân eglwyſi;
Y cyfaill goreu yma'n gâd,
Ond byth ni 'mad yr Ieſu.

3 Mewn bedd mae'r brawd, mewn bedd mae'r chwaer,
Yr iſange a'r oedrannus;
Y llygad llon i d'w'llwch aeth,
A'r tafod ffraeth diddanus.

4 Ond mae'r Brawd hynaf etto'n fyw,
A hynny yw ein cyſur;
Ein tywys wna â'i law'n ddilai
Nes myn'd lle mae ein brodyr.

J. R.

HYMN LXXII. [M. C.]

Nid yw Bywyd neb yn ſefyll ar Amlder y Pethau ſydd genddo.

Luc xii. 15.

GWrandawn ar lais Iachawdwr byd,
Fe'n dyſg mewn pryd i wybod,
Mai nid mewn amldra bydol dda
Mae'n cyſur yma iſod.

Fe ddichon rhai mewn cyſlwrs
I fyw'n gyſurus ddigon;
Heb brofi llawer chwerw dro
Sy'n blino cyfoethogion.

Mae dynion da 'mhob oes fe wŷs
Yn happus ar y ddaear;
Pe baent yn dlodion yn y byd,
Mae ganddynt olud hawddgar.

Bodlonrwydd meddwl, heddwch Duw,
A gobaith gwiw cyſurus,
Am deyrnas nef, a'n gwna ni 'gyd
Yn hyn o fyd yn happus.

O. R.

HYMN LXXIII. [M. C.]

Breuolder Bywyd.

TOſturia wrthym, Arglwydd da,
N'is byddwn yma ennyd;
O fyr barhad, fel îr-wellt glas,
Neu flodeu'r maes yw'n bywyd.

Heddyw yr y'm ar dir y byw,
Trwy gennad Duw mae hynny;
Ond pwy o honom oll y ſydd
Yn ſiwr o'r dydd y foru?

Ar bwys ein llaw mae'r angau llym,
Heb ynddo ddim trugaredd;

Clywch, hên ac ifaingc, ar bob cam
Meddyliwch am eich diwedd.

4 Farwolion brau, na r'own ein bryd
Ar hyn o fyd a'i foddion;
Trwy garu hwn cofleidiwn wynt,
A'n helynt fydd echryfion.

5 Un peth y fydd o ddirfawr bwys,
Rhown ofal dwys am hwnnw;
Sef bod o honom yn ddio'd
Yn barod erbyn marw.

6 Ac yna beunydd difgwyl wnawn,
Mewn gobaith llawn am wynfyd:
Can's gair yr Arglwydd fydd ddilyth
Yn para byth heb newid.

O. R.

HYMNAU

AR

ACHOSION NEILLDUOL.

HYMN LXXIV. [M. C.]

Diolchgarwch i Dduw, ar Ddiwedd neu Ddechreu Blwyddyn. Allan o Saesonaeg Mr. Addison.

1 PAN yr ystyriwyf, O Dduw cu,
Dy drugareddau tirion;
Rhyfeddod, mawl, a chariad fy
Yn llwyr orchfygu 'nghalon.

2 O p'odd y dadgan geiriau'n iawn
Y diolch wyf yn deimlo,
Mor dwym o fewn fy mynwes lawn!
Ond ti a'i gweli yno.

3 Ymgeledd ac amserol faeth,
A ro'est im' bywyd egwan;
Pan oeddwn yn y groth yn gaeth,
Ac ar y fron yn faban.

4 I'm llefain eirad, Arglwydd mwyn,
Agoraist glust tosturi;
Cyn i mi ddysgu tannu 'nghwyn,
A'm meddwl gwan mewn gweddi.

5 Rhoddion heb rif a ddarfu'm gael,
Trwy d' ofal tadol tyner,
Cyn gwybod o ba ffynnon hael
Y tarddai'r cyfryw fwynder.

6 Tydi a'm cedwaist i bob cam
Yn llwybrau llithrig ie'ngctid;
A'th ddirgel fraich a'm dug, heb nam,
I oedran gwrol bywyd.

7 Trwy lawer perygl, trangc a gwall,
Gwnaeth i mi ffordd ddiangol;
A thrwy dwyllodrus rwydau'r fall,
Oedd etto'n fwy niweidiol.

8 Bûm ar glaf-wely'n wael fy nrych,
Rhoiſt im' o newydd iechyd;
A than euogrwydd mewn toſt nych,
A'th ras adfywiaſit f' yſpryd.

9 Cyfrennaiſt i mi yn ddiball
Oedd raid o fydol feddiant;
A chyfaill ſerchog, ffyddlon, call,
I ddyblu fy holl fwyniant.

10 Nid y fraint leiaf i'w choffhau,
Ymhlith pob rhyw ſendithion,
Yw calon ſiriol i fwynhau
D'anneiriſ ddoniau mawrion.

11 Am dy ddaioni mawr bob pryd,
Tra paro f' einioes, ſoniaf;
A chwed'yn, mewn rhagorach byd,
Ag awen newydd canaf.

12 Pan ſaif rhôd nattur, pan na bo
Na nos, na dydd, na blwyddyn;
Cadwaf dy gariad byth mewn co',
I'm diolch ni bydd terfyn.

13 Dy foli, Arglwydd, fydd fy ngwaith,
Trwy fy holl oes anfarwol;
Ac O! i ganu'th glodydd maith,
Rhy fer yw oes drag'wyddol.

S. H.

HYMN LXXV. [M. H.]

Ar Ddiwedd Blwyddyn.

1 HYD yma'n cynnorthwyodd Duw,
Trugaredd fawr yw'n bod yn fyw:
Blynyddau'n hoes, o un i un,
Sy'n ffoi fel cyſgod gwag neu lun.

2 Y flwyddyn hon a wnaed yn llawn
O drugareddau gwerthfawr iawn;
O'i dechreu hyd ei diwedd hi
Ein Duw o'i nawdd a'n cofiodd ni.

3 Yn uchel galwodd ar ein hôl,
Er i ni ffoi oddi wrtho'n ffôl,
" Dychwelwch, blant gwrthnyfig oll,
" O'r llwybrau gau cyn myn'd ar goll."

4 Danfonodd beunydd 'lawr i'n plith
Gafodydd breifion, nefol wlith,
I ddyfrhau'i fychedig blant,
A phorthi blys eu grafol chwant.

5 Pechodau'r flwyddyn hon, O Dad,
Dilea'n rhwydd, a maddeu'n rhâd,
Dymunwn bellach fyw trwy ffydd,
A rhodio'n fwy fel plant y dydd.

6 Yn llyn yr ydym oll o hyd
Yn myn'd nes nes i'r bythol fyd;
O helped Duw ni i gwpla'n gwaith
Cyn myn'd i'r trag'wyddoldeb maith.

O. R.

HYMN LXXVI. (M. C.)

Ar Ddechreu Blwyddyn newydd.

1 CLodforwn ein Cynhaliwr fyth
Am ei fendithion amal:
Profafom hyd y funud hon
Ei ryfedd dirion ofal.

2 Pob hâf a gauaf 'ry'm yn cael
Mwynhau ei hael ddaioni;
A chas o hyd y flwyddyn hon
A'i roddion ei-choroni.

3 Bu 'llynedd farw llawer un,
A ninnau fy'n heneiddio:
Cawn bawb ein harwain cyn bo hir
Drwy angau i dir ango'.

4 Ni's gwyddom beth y ſydd o'n blaen,
Pa ddw'r, neu dân, neu d'wyllwch:
Ein cyſur yw fod Criſt o'n rhan,
I'n tywys trwy'r anialwch.

5 Os arbed y Gwinllannydd hael
Ei brenniau gwael anſuddiol;
O! dygwn 'leni gyflawn lwyth
O beraidd ffrwyth rhagorol.

6 Bendithia ni, O Dduw, yn awr
A dirfawr raſol lwyddiant;
A phlanna ni'n blanhigion hardd
Ar fyr yngardd gogoniant.

7 Trag'wyddol wynfydedig oes,
Heb ddydd na nos, fydd yno:
Dwg ni ar frys, O Arglwydd, fry
I Salem i breſwylio.

B. F.

HYMN LXXVII. [M. H.]

Ar Ddechreu Blwyddyn.

Ebenezer, oddi wrth Sam. vii. 12.

1 HYD yma darfu i Dduw fy nwyn,
Bendigaid fyddo'i enw mwyn;
'R un yw ei allu ar bob pryd,
A'i gariad ſydd yr un o hyd.

2 Arwyddion tyner iawn y fydd
O'i ofal tadol ef bob dydd;
Trwy'r flwyddyn rhydd y rhai'n, heb ri',
O'i dechreu hyd ei diwedd hi.

3 Trwy holl beryglon bywyd brau
Ei gadarn law a'm diogelhai:
Ni phalla nodded Brenhin nef,
Rhof iddo fawl âg uchel lef.

4 O hyn i maes, tr'wy teithio ar hyd
Anialwch dyrys hyn o fyd,

Ei roddion newydd gwerthfawr gwiw
Galwant am newydd gân i Dduw.

5 Ar bwys y ddofn Iorddonen ddu
Fy ngholofn a gyfodaf fi;
Gwir foliant gaiff ddiweddu 'nhaith,
Molaf i drag'wyddoldeb maith.

O. R.

HYMN LXXVIII. [M. C.]

Ar Ddydd Calan.

1 DY drugareddau, Arglwydd da,
Sydd amal a rhyfeddol,
Tu ag attom ni, drueiniaid gwael;
Ti haeddit gael dy ganmol.

2 O pa mor rhad yw'th gariad maith!
Mor fawr yw'th waith a rhyfedd!
Trwy'r flwyddyn gwne'ſt in' dda bob pryd,
O'r dechreu hyd y diwedd.

3 'R y'm heddyw ger dy fron yn llyn
Yn dechreu blwyddyn newydd:
Dy ras a'n nertho i fod trwy hon
Yn ffyddlon ac yn ufudd.

4 Dod galon newydd ynom oll,
Sancteiddia'n holl naturiaeth;
Dy ddelw ſanctaidd arnom dod;
I'th ras bydd clod yn helaeth.

5 Yr y'm am ddioſg yr hen ddyn,
A'i chwantau fy'n dwyllodrus;
A gwiſgo'r dyn o newydd ryw,
Sy'n hardd, a gwiw, a gweddus.

6 Damweiniau'r flwyddyn hon, O Dduw,
Par'to ni i'w cyfarfod;
At waith ein dydd, a'n diwedd mawr,
Gwna ni bob awr yn barod.

7 Boed d' achos di yn llwyddo'n llon
Y flwyddyn hon trwy'r gwledydd;
Cyfrifwn hyn yn ddedwydd dro,
A blwyddyn o lawenydd.

O. R.

HYMN LXXIX. [M. C.]

Ar Ddydd Ympryd.

Anwiredd yn amlhau, a Chariad yn oeri, Mat. xxiv. 12.

1 DROS ynys Brydain, a'i phlant hi,
Mae achos ofni'n ddirfawr;
Y beiau anrheithiodd Salem gynt,
'Nawr yma y'nt yn waeddfawr.

2 Maent fel y môr a'i lif ddw'r llawn,
Rhuadwy iawn a chreulon;
Pa beth a ddaw yn niwedd hyn?
Mae erchyll syn argoelion.

3 Pa le mae cariad? oer iawn yw,
Os d' oes y cyfryw'n aros:
A ph'le y gwelir dim zel gwiw
Dros enw Duw a'i achos?

4 Brydain ga's mynych gofp cyn hyn,
A'i hir waredu'n rhyfedd;
Duw wnel na chaffo'r cleddyf mwy
Roi dyfnach clwy'n y diwedd.

5 Duw grafol, dal dy fraich mewn pryd,
Tywallt dy yfpryd arnom,
I lwyr ddiwygio drygau'n gwlad,
Ac ennyn cariad ynom.

D. J.

HYMN. LXXX. [M. H.]

Ar. Ddydd Ymprydd.

Ymbil â Duw dros Jeruſalem.

1 PEnllywydd tirion nef a llawr,
O'th raſol orſedd edrych lawr;
Gwel ni farwolion brau ger bron
Yn ceiſio'th nawdd yr oedfa hon.

2 Ni's gallwn dewi am Seion dêg,
Nes gwel'd ei muriau yn ddi-freg;
Nes adde' o bawb dy gyfiawn hawl,
A bod Jeruſalem yn fawl.

3 Cyn'lleidfa o drueiniaid ſy'
Yn diſgwyl wrthyt yn dy dŷ;
Llefain yr ydym ar Dduw * mâd, * da.
A churo wrth borth trugaredd râd.

4 Er mwyn dy enw gwel, O Dduw,
Anghyfannedd-dra dynolryw;
Gwel wledydd maith mewn t'wyllwch mawr,
A thaſi eu delwau'n llwyr i'r llawr.

5 Rhoed udgorn 'Fengyl Criſt ei lleſ,
Nes dwyn pawb gwledydd atto ef:
Doed pawb ynyſoedd, doed pob iaith,
A chyrrau pella'r ddaear faith.

6 Dadymchwel allor Babylon,
Byth nad aberther mwy ar hon:
Tor harnaidd iau caethiwed cry',
Iau Rhufain ddall, ac uffern ddu.

7 Bendithia Frydain, d' eiddo yw,
Frenhin a phobol o bob rhyw;
Boed dy lanwadau'r nef, fel gwlith,
Yn meithrin cariad ynom byth.

8 Teyrnaſa o hyd, yr Ieſu hael,
Yn ſiriol gwnaed dy ddeiliaid gwael;
Boed holl rinweddau'th deyrnas di
Yn harddu pawb trwy'n hynys ni.

9 Diſgynned arnom ddwyfol ras
Fel tirion law ar rynnau'r maes:
A'n Ceidwad mawr a fydd Duw nef,
Cawn iechydwriaeth trwyddo ef.

10 Yna pob rhai, gwyr, gwragedd, plant,
Yn deg eu hynt, cyd-lawenhânt:
A Seion wedi ei gwneud yn fawl
A'i tâl yn ol i ti 'n ddidawl.

J. R.

HYMN LXXXI. [M. H.]

Galaru pechodau gwladol.

1 PEN-Arglwydd nef, a daear lawr,
Arſwydwn wrth dy enw mawr;
'Lawr yn y llwch yr y'm yn llyn,
Yn ceiſio gwawr dy wyneb gwyn.

2 Mae'n beiau'n aml iawn dros ben,
Yn tyfu fynu hyd y nen;
Gan alw arnom ddial maith
Y llaw a'n cadwodd lawer gwaith.

3 Gwae ni mor ffol y buom byw!
Mor fach ein parch i enw Duw!
Trwy fyw yn groes i 'Fengyl Griſt
Yr ail groes-hoeliem ef yn driſt.

4 Brydain, O Dduw, a haeddai fod,
Trwy farn ddialeddus, dan dy nôd,
Yn dlawd o'i breintiau gwerthfawr gwiw,
Mor dlawd a'r tlotta o ddynolryw.

5 Etto, er mwyn y gweddill ſydd
Yn cadw'th ffyrdd, a byw trwy ffydd,

Bydd dirion wrth dy ynys hon,
Sy'n plygu'n iſel ger dy fron.

6 O! gwel ein dagrau, gwrando'n lleſ,
Na fwr ni ymaith, Arglwydd nef;
Diogela'n teyrnas rhag pob brâd,
Cyfod yn glau i gadw'n gwlad.

7 Ond os dy law ddwg dial lawr
Ar wlad fu'n ddedwydd hydlyn awr;
Ynghanol pob terfyſgoedd blin,
Duw fyddo'n cadw 'i eiddo 'i hun.

J. R.

HYMN LXXXII. [M. H.]

Diolchgarwch am Waredigaeth wladol.

1 YMwared oddi wrth Dduw ſy'n d'od,
I'w ras a'i allu rhown y clod;
Effeithiol ergyd ro'es a'i law,
Nes taro'r gelyn balch â braw.

2 Mawl byth i'r Arglwydd ſy' mor fwyn,
Yn gwrando gweddi 'i blant a'u cwyn;
Ac er i'w ras ef oedi cy'd,
Mae'n atteb mewn daionus bryd.

3 O! boed i'th gariad rwymo'n gwlad,
Achubwyd rhag pob llid a brad,
I ddwyn it' dreth o fawl yn awr,
Ein Ceidwad mwyn, a'n Prynwr mawr.

4 Eln temlau gadwyd rhag y tân,
Cydſeinient glod i'n Harglwydd glan;
A chaed y tai lle 'ry'm yn byw
Eu gwneud yn demlau oll i Dduw.

5 Boed ein hyfrydwch pennaf ni
I rodio fel yn d' olwg di,
Gan gadw d' holl orch'mynion gwiw,
Ac ofni d' enw tr'o ni byw.

D. J.

HYMN LXXXI. [M. C.]

Ar Agoriad Tŷ Cyfarfod.

1 O Arglwydd Dduw y nefoedd wych?
'R hwn wyt yn edrych arni,
Fel papell fach, ymhell isllaw
Gorseddfaingc dy Fawrhydi.

2 Ni ddichon fyth y nefoedd faith,
Yr hon sydd waith dy fysedd,
Dy gynnwys di, 'r anfeidrol Fôd,
Dy hanfod a'th anrhydedd.

3 Gan hynny beth, O Arglwydd byw!
Yw unrhyw demlau amlwg,
Neu dŷ neu lys, fo decca 'i lun,
A gododd dyn, yn d' olwg?

4 'Does un adeilad o waith dyn
Yn wiw i'th dderbyn iddi:
Dy unig lys yw'r galon lân,
A grŷn o'th flaen mewn gweddi.

5 O cymmer feddiant cyflawn fyth,
Trwy'th ras a'th fendith ddwyfol,
Ar bawb o fewn y babell hon,
A gwna ni'n ffyddlon bobol.

6 Tra erys yma faen ar faen,
Neu golofn gyfan gosus,
Cyhoedder llais gwirionedd llon
Drwy'r demel hon yn felus.

7 Addoler yma d' enw mawr,
Mwynhaer dy werthfawr heddwch,
A gweler yn dy gyntedd gwiw,
Ogoniant Duw a'i degwch.

8 Na fydded yma enaid heb
Dy bresennoldeb nefol;
A miloedd dwg i mewn i'th dŷ,
Yn un â'th deulu duwiol.

B. F.

HYMN LXXXIV. [M. C.]

Dyledſwydd Gweinidogion.

1 CHWI oll a ga'dd y ſanctaidd ſwydd
Oddiwrth yr Arglwydd nefol;
Ac wrth ei arch eich urddo wnair
I draethu 'i air achubol:

2 Cyflawnwch gyd â zel yn rhwydd
Y bwyſig ſwydd heb ballu;
Mynegwch mewn ffyddlondeb pur
'Wyllys eich meiſtir Ieſu.

3 Pregethwch, nid am elw 'r byd,
Clod hefyd, nac anrhydedd;
Ond cariad Criſt ſo'ich cymmell chwi
'Ddyrchafu 'i enw ſanctaidd.

4 Pregethwch, a mawrhewch eich ſwydd,
Fel rhai yngwydd ei fawredd;
Na thraethwch yn ei enw o
Ddim ond a ſo 'n wirionedd.

5 Cydſyniwch a'r gwirionedd maith,
Pur athrawiaethau traethwch;
I droi at Dduw, ac ofni 'i lid,
Annuwiol fyd cynghorwch.

6 Annogwch bob rhyw enaid blin,
Sy'n crynu ar fin anobaith,
I gredu yng Nghriſt, ac ufuddhau,
A bwrw 'i ofnau ymaith.

7 Byddwch i 'ch praidd batrynau pur,
Rhowch ſiamplau eglur duwiol,
Mewn ffydd, ſancteiddrwydd, cariad gwiw
I'w dyſgu i ſyw 'n grefyddol.

8 Y gair pregethwch, byddwch daer,
Bob amſer caer chwi 'n ddyſal;
A chyngor, cerydd, rhybudd rhowch,
I hyn ymrowch heb attal.

9 Yna 'r Pen-bugail, pan y del
Y dydd mawr uchel ola',
Cewch goron gantho o 'goniant fry
Drag'wyddol ni ddiflanna.

D. J.

HYMN LXXXV. [M. H.]

Ar Gymmanfa o Weinidogion.

1 O Arglwydd Dduw y lluoedd fry!
A Bugail gwiw yr eglwys gu,
Unwn i gyd mewn nefol gân
O uchel glod i'th enw glân.

2 Anneirif lu 'r ffurfafen lâs
D'ogoniant mawr ddadgana 'maes:
Cerubiaid a ſeraphiaid fydd
Yn moli Duw bob nos a dydd.

3 Ond gweinidogion gair dy râs,
Fel udgyrn melus yn y maes,
Gyhoeddant dy drugaredd hael
At bechaduriaid, gweiniaid gwael.

4 Pregethu wnawn trwy 'r parthau 'n hŷ
Rinweddau Criſt, ein Harglwydd cu,
Ei fuchedd lân, a'i farwol loes,
Effeithiau gras, a ffrwythau 'r groes.

5 Arfoga ni â nerth o'r nef,
Dioſga'th fraich dragwyddol gref,
Ac yna myrdd o gewri mawr,
Trwy'th gleddyf llym a gwymp i'r llawr.

6 Boed bloedd y Brenhin glân ei bryd
Yn dadſain trwy 'n gwerſyllau 'i gyd:
O'r Ieſu da! teyrnaſa di
Dros holl derfynau 'n daear ni.

7 Dwg ni ar frys i'th demel fry,
I blith y glân buredig lu:
O am gyfarfod yno i gyd,
I'th foli byth, heb ddiwedd byd!

B. F.

HYMN LXXXVI. [M. C.]

I'w chanu 'r Boreu.

1 I'R ffyddlon a'r trugarog Dduw
Tra gweddus ydyw moliant:
Trigolion byd, tra fyddont byw,
Cyd-ganent i'w ogoniant.

2 Arglwydd, tr'o myrdd o fyrdd o'th flaen
Yn uchel ganu clodydd,
Cyd dalwn ninnau fawl iti
Am dy ddaioni beunydd.

3 Ein cyrph, 'nol blino 'r dydd o'r blaen,
A gawsan' eu dadebru;
A'n holl bwerau 'n fywiog fy',
A chymmwys i'th was'naethu.

4 Yr haul, ar ol machludo ddo',
A welwn etto 'n codi;
Dros wyneb natur rhoddi wna
Wresogrwydd a goleuni.

5 Goleuni 'r dydd mor hyfryd yw!
Fy nerthoedd byw a gyffry:
Tirion a da yn wir yw Duw,
Tra theilwng i'w foliannu.

6 Am ein heneidiau ymhob lle
Yn ffyddlon 'fe ofala:
'Fe geidw 'n cyrph tr'om yn y byd,
Fe 'u cyfyd y dydd ola'. J. R.

HYMN LXXXVII. [M. C.]

I'w chanu Brydnawn.

1 CLodforaf di, fy Arglwydd da,
Fy ngwerthfawr noddfa nerthol;
Arbedaist f'einioes hyd yn hyn
Rhag angau yn ddiangol.

2 Am werthfawr drugareddau 'r dydd,
A'th ddoniau beunydd imi,
Prydnawnol aberth rhof yn llon
O waelod calon iti.

3 Pair i'th angylion, anwyl Dad,
Tr'wy nghwſg ſy ngwarchad heno;
A thrwy y nos i'th waelaf lwch
Dy dirion heddwch dyro.

4 A phan yr hunwyf yn y bedd,
Rho 'th netol hedd i'm henaid;
Ac adgyfoda 'ngorph i fyw
Byth gyd â'r gwiw ffyddloniaid.

B. P.

HYMN LXXXVIII. [M. H.]

Y Boreu.

1 YR haul, O Arglwydd, wrth dy wys
Yn ſiriol ſy 'n cyfodi ar frys,
A llawenhau fel cawr mae ef
I redeg ar ei daith trwy 'r nef.

2 O deg 'ſtafellau 'r dwyrain draw
Gan ddechreu cylch ei yrfa daw,
Heb orphwys oll, na blino chwaith,
Llewyrcha o gylch y ddaear faith.

3 O! fel yr haul, boed im' gwpplau
Holl ddyledſwyddau 'r dydd yn glau;
A bryſio 'mlaen, trwy'th gymmorth gref,
Heb baid ar hyd y ffordd i'r nef.

4 'Dorch'mynion, Ior, ſy bur bob rhan,
I lwyr oleuo 'n golwg wan;
Uniawn yw 'th ffyrdd, a'th air ni phall,
D'efengyl goeth wna 'r ffol yn gall.

5 O tywys fi a'th gyngor cu,
Nes cyrraedd i'r gogoniant fry!
Fy ngobaith a'm dymuniad yw
Yn fwy na dim ſod gyd a'm Duw.

D. J.

HYMN LXXXIX. [M. H.]

Y Prydnawn.

1 HYD yma 'mlaen i'm dygodd Duw,
Hyd yma rhoes im' oes i fyw;
A phob prydnawn o hyd 'r wy'n cael
Prawf newydd o'i drugaredd hael.

2 Gwasdraffais f'amser lawer pryd,
Er mynd nes nes i'r bythol fyd;
O maddeu, Arglwydd, dyro râs,
I rodio 'n well o hyn i maes!

3 Fy nghorph i gysgu rhof dan len,
Heddwch fo 'n gluſtog dan fy mhen;
Tra bo angylion Duw o hyd
Yn gwilio cylch fy ngwely clyd.

4 Nid ofna 'nghalon ddrwg na braw,
Er bod peryglon ar bob llaw;
Mi gaf yn ddigon diogel fyw
Dan nawdd adenydd tirion Duw.

5 O boed fy ffydd, O Arglwydd nef,
Yn dy ragluniaeth di yn gref!
Ac yn y boreu gad im' gael
Brofi dy garedigrwydd hael.

6 Felly, pan ddel nos angau hir,
Fy nghnawd a orphwys dan y tir,
Nes del dy lais im' codi o'r pridd,
I gael mwynhau trag'wyddol ddydd.

D. J.

HYMN XC. [M. C.]

At y Boreu, *neu 'r* Prydnawn.

Rhagluniaeth Duw yn cadw Dyn.

1 HOſanna fyth, mewn duwiol fryd,
I law 'r tragwyddol Dduw;
Dengmil o faglau ſy'n y byd,
'Rym ni er hynny 'n fyw.

2 Gair grymmus y Jehofa mawr
A roes in' ddechreu byd:
Bob dydd, bob nos, bob munud awr,
Mae'n pwys ar hwn o hyd.

3 Gwerſylla 'r nos angylion Duw
I'n cadw bawb mewn hedd;
Deffroi a wnawn, a rhyfedd yw
Na throed ein tŷ yn fedd.

4 Nid ſiwr i neb, pan godo 'r wawr,
Y caiff e' wel'd yr hwyr:
Gan angau daro bob pen awr
Ein hoedel bant yn llwyr.

5 Pechaſom ymaith bob yr un
Ein hanwyl einioes, do;
O Dduw! dy ras, a'th ddawn i ddyn
Sy'n achub ar bob tro.

6 Haul yw ein Duw, ei lewyrch rhydd,
Nawdd, a gorfoledd llawn:
Dan adain hwn, bob nos, bob dydd,
Diogelwch cyflawn cawn.

J. J.

HYMN XCI. [M. H.]

Y Boreu *neu 'r* Prydnawn.

1 DIball, O Dduw! yw 'th gariad llawn
Newydd yw 'th roddion bob prydnawn;
A'r boreu, fel tymhoraidd wlith,
Daw 'th drugareddau lawr i'n plith.

2 Caſtellu 'r nos o'n hamgylch ni
A gwilio 'n horiau cwſg 'r wyt ti;
Dy air adferu 'r dydd y mae,
A'n cyſglyd gyrph eu bywioghau.

3 Cyflwyno wnawn i ti, O Dduw!
Weddill y dyddiau y b'om ni byw:
A'th roddion ddaw o hyd wrth raid,
Sy 'n galw am ein mawl dibaid.

D. J.

HYMNAU

PERTHYNOL i'r CYMMUN.

HYMN XCII. [M. H.]

Gosodiad Scapper yr Arglwydd.

1 AR dywyll nos, pan aeth i'r ardd,
Mewn tristwch trwm, yr Iesu hardd;
Pan chwysai 'r gwaed yn ddafnau mawr,
Pan redai 'n llawn ar hyd ddo i'r llawr.

2 Y nos cyn iddo gael ei ddwyn
I mewn i'r lladdfa er ein mwyn;
Cyn dioddef cymmerth fara 'n llyn,
Bendithiodd torrodd, diwedodd hyn.

3 "Cymmerweh, bwyt'weh fy nghorph * twn,
"Can's drosoch chwi y torrir hwn:
"Mewn cof o'm cariad mwyn, a'm cur,
"Gwnewch hyn wrth arch eich Prynwr pur."

4 A'r cwppan cymmerth Iesu gwiw;
Bendigodd, d'wedodd, "Arwydd yw
"O'm gwerthfawr waed, trwy lymmaf loes,
"A gollir drosoch ar y groes."

5 Nid â o'm cof mo'n ceidwad cu,
Gan fwyned yw, gan fwyned fu:
Er gofio wnaf mewn, hwylus hoen,
'Nes mynd i Swpper mawr yr Oen.

* drylliedig.

HYMN XCIII. [M. C.]

Parottead i'r Cymmun.

1 DEWCH bellach rhowch y byd ymheli,
Gwageddus yw i gyd;
A rhowch eich bryd ar fyd fydd well,
Can gwell na hyn o fyd.

2 Pan fycho 'r mor, pan loſgo 'r llawr,
Y nefoedd fydd ddilyth:
Ni ddeil y corph ond munud awr,
Fe bery 'r enaid byth.

3 Gwynfonach, lladron, angau glâs,
A dreulant fwyniant byd;
Ond nefol wynfyd, nefol ras
Sydd o drag'wyddol hyd.

4 O cofiwch gariad awdwr hedd!
O cofiwch farw Criſt!
Yn barchus dewch i'r nefol wledd,
I lonni 'r enaid triſt.

J. J.

HYMN XCIV. [M. H.]

Coffadwriaeth o'n Harglwydd abſennol.

1 MAE'R Ieſu wedi myn'd i'r nef,
Lle ni all cnawd ei weled ef;
A pharod iawn, yw pethau 'r byd
I'w daflu ef o'n côf o hyd.

2 'Fe wyr mor barod y'm ni i gyd
I anghofio Ceidwad mawr y byd,
Am hynny trafnodd y wledd hon
I adnewyddu 'n cof yn llon.

3 Arlwyo bwrdd mae 'n Harglwydd mâd,
Gwledd megis yw o gig a gwaed;
Ymborthwn ar y bara gwiw,
Ac yfwn win, gan foli Duw.

4 Aed meluſderau 'r byd ymhell,
Mae genn'i dryſor llawer gwell;
Mae cariad Criſt yn llanw eu lle,
A ffydd a gobaith yntho 'ſe.

5 Tra' mae yn awr yn nheyrnas ne',
Par'toi y mae i ninnau le
Yngwlad goleuni, i gael byw
Yn agos byth i wyneb Duw.

6 Edrychwn tu a'r brynian fry,
O'r lle y daw ein Harglwydd cu:
Olwynion ei gerbydau 'ſe
A ddont ar fyr i'n dwyn i dre'.

J. R. o W.

HYMN XCV. [M. C.]

Gwledda wrth Furdd Criſt.

1 O Mor rhagorol, ac mor gu,
Yw gwledda 'n nhŷ yr Arglwydd!
A ffrwythau da y nefol dir
Rydd i ni wir lawenydd.

2 Nid bara a gwin daearol gwan
A bortha 'n rhan anfarwol;
Nid ydynt ond cyſgodau da
O Griſt, y bara bywiol.

3 Mae 'i gnawd a'i waed E'n ſwyd yn wir,
I'r nefol natur newydd;
A'n ſawl a'i bwytty a fydd byw
Fry gyd â Duw 'n dragywydd.

4 Trwy Griſt a'i groes, trwy chwys a gwaed,
Y daeth rhyddhâd trag'wyddol,
Ac Arglwydd bywyd aeth i'r bedd,
I ni gael annedd nefol.

B. F.

HYMN XCVI. [M. H.]

Gwahoddiad i Swpper yr Arglwydd.

1 AMgylchwn fwrdd ein Harglwydd gwiw,
Par'toad llawn o gariad yw:
Doed holl ganlynwyr Crift yn llon
I brofi brafder y wledd hon.

2 O groefo i wledd yr Iefu mâd!
Danteithiol wledd o gig a gwaed!
Rhyfedd ein braint, a gwyn ein byd,
Gael bwyd mor felus, ac mor ddrud!

3 Wahoddedigion fanctaidd, dewch,
At fwrdd yr Iefu 'n llon nefewch:
O gwelwch gariad mawr Duw nef!
Derbyniwch brawf o'i gariad ef.

4 Doed tyrfa fawr, â chalon lân,
A chalon wrefog doent ymlaen,
I fwytta ac yfed gyd â Duw;
Bwyd gwerthfawr, bwyd angylaidd yw.

5 Bywha d'eglwyfi, Arglwydd da,
Rhifedi 'th bobol amlhâ;
O dwg i'th dŷ y lliawa ffol
I rodio 'n fanctaidd ar dy ol.

J. R

HYMN XCVII. [M. H.]

Gorfoledd yn y Groes.

1 WRTH arch ein Prynwr 'r y'm yn cwrdd,
Am ei farwolaeth i goffhau;
Ei waed fel gwin fydd ar y bwrdd,
A'i gnawd ei hun ein porthi mae.

2 Am fywyd credu 'r y'm mewn un
A brofodd wŷn ac angau loes,
A difgwyl am goronau 'n fiwr
Oddiwrth y Gwr fu ar y groes.

3 Os tafla 'r byd eu gwradwydd trift
Ar achos Duw, goddefwn loes;
Er hyn ymffroftio wnawn o Grift,
A gorfoleddu yn y groes.

4 Gwybydded holl watworwyr byd
Fod Crift fu farw yn y nef,
Yn ddigon pell nehlaw eu llid;
Cawn cyn bo hir ei weled ef.

J. R. o W.

HYMN XCVIII. (M. H.)

1 ER marw o Grift, mae etto 'n fyw,
Mae'n eiftedd ar ddeheulaw Duw:
Cyn gado 'r byd, a myn'd i'r nef,
Fe archodd in' ei gofio ef.

2 Fe haeddai 'r hwn ddadguddiai 'r gwir,
A'r ffordd i anfarwoldeb hir,
A chael o nawdd a ffafor Duw,
I'n gofio am dano tra fo'm byw.

3 Fe haeddai 'r hwn ddioddefai loes,
Ac ergyd angau ar y groes,
Er felio e'i waed wir gariad Duw,
I'n gofio am danom tra fo'm byw.

4 Fe haeddai 'r hwn a gurai lawr
Gadernid angau, muriau mawr,
(Can's awdwr adgyfodiad yw)
I'n gofio am dano tra fo'm byw.

5 Fe haeddai 'r hwn fydd yn ei fryd
Wrth weithred pawb i farnu 'r byd,
I'n geifio ei rad a'i gariad gwiw,
A chofio am dano tra fo'm byw.

J. J.

HYMN XCIX. (M. C.)

1 WRTH eiſte 'o amgylch bwrdd ein Tad,
Dyrchafwn ganiad hoyw;
Ein ffydd gwel'd Criſt yn marw mae,
A rhoi 'n pechodau i farw.

2 Gwaed Criſt a gollwyd, a thrwy hwn
Daw pardwn in' am bechod;
Pechadur gwel'd y cariad mae,
Ac yn mawrhau y cymmod.

3 O Griſt! y mae dy groes a'th gri
Yn dwyn i ni goronau;
O'th golled tarddodd in' leſhad,
A llawn iachad o'th glwyfau.

4 Ond, O! nis gallwn ni, y rhai
A drig mewn clai mor wanned,
Byth oddef cymmaint, droſot ti,
Na'th foli fel mae 'n dyled.

D. I. o W.

HYMN C. (M. C.)

Criſt yn ei ſancteiddio ei hun er mwyn ei Ddiſgyblion.

IOAN xvii. 19.

1 GWel'd 'nawr a wnawn ein Ceidwad cu
Ynghanol llu o elynion,
Ar bren y groes, yr Oen difrâd,
Yn colli gwaed ei galon.

2 O Ieſu da! pa fodd doeſt ti
A'th waed yn lli' fel yna?
Pa ham mae 'r drain yn clwyfo 'n llyn
Dy wyneb gwyn hawddgara?

3 " Rwy'n ymſancteiddio (medd eſe)
" Fel y bo chwithe' 'n ſanctaidd;
" Dewch, creffwch ar f'mddygiad gwiw,
" A dyſgwch fyw 'n ddychlynaidd."

4 Yn ſanctaidd y dymunem fyw,
A'n galar ydyw pechod;
O Arglwydd! dwg ni fyth ymlaen
Yn llwybrau glân dy ddeddfod.

J. R.

HYMN CI. [M.H.]

Cariad Criſt yn galw arnom i garu ein gilydd. Eph. v. 2.

1 O Wele gwr, ac erglyw gwyn!
Gwel gariad mawr yr Ieſu mwyn;
Mae'n llonni byth fy enaid byw;
Rhyfeddol, anghydmarol yw.

2 Oen Duw yn gwaedu ar y groes,
Gan ddiodde 'r angau llymma 'i loes!
O ddirfawr ſerch at farwol fyd
Dibriſio 'i boenau wnaeth i gyd.

3 Wrth ganmol Criſt, a'i ryfedd ras,
Pa fodd y galla'i ddodi 'maes,
Ger bron trigolion dae'r a nef,
Fy nghywyr gariad atto ef?

4 Gorchymyn newydd roddodd E'
I'w holl ddiſgyblion ymhob lle,
I fod a byw fyth yn ddiball
Mewn cariad llwyr naill at y llall.

5 Wrth weld dy groes ar *Galfari*,
A'th waed yn ffrydio i'r llawr yn lli,
O boed i'm calon oerllyd i,
I garu fel y ceraiſt ti!

J. R.

HYMN CII. [M. H.]

Gwahoddiad i Bobl Ifainge *at Fwrdd yr Arglwydd.*

1 DEWCH, bobl ifainge gweddaidd gwiw,
I fwpper Criſt, eich dyled yw:
" Gwnewch hyn i'm coffa," dyna'r cais,
O na wrandaweech ar ei lais!

2 Haelioni rhyfedd awdwr hedd
I'r enaid a ddarparodd wledd;
A gwawdd ddanfonir attoch chwi
I fwytta o'i danteithion hi.

3 " Pob peth fydd barod," dewch heb ffael,
Heb lunio eſgufodion gwael;
Gwnewch frys i eiſtedd wrth y bwrdd,
Mae Brenhin nef yn addaw 'ch cwrdd.

4 Cewch " ras am ras," helaethrwydd maith,
Cewch nerth digonol at eich gwaith;
Cewch wared o'ch holl ofnau triſt,
Cewch cyn bo hir fod gyd â Chriſt.

J. R.

HYMN CIII. [M. H.]

Ar ol y Cymmun.

1 GAN rinwedd gras gwir Awdwr hedd,
Fel hyn y gwleddſom yn ei dŷ:
Daw 'r pryd in' fynd i'r fythol wledd,
I'r nefoedd wen o'r ddaeren ddu.

2 Profaſom wledd o ddwyfol * rîn
Wrth alwad Criſt; ar hyn cair byw:
Ei waed oedd ar ei fwrdd fel gwîn,
A'i gnawd yſprydol ymborth yw.

3 Rhyfeddwn wrth ei gariad hael;
Fe gollai 'waed i'n cadw 'n fyw:
Trwy Griſt y 'n troir, o fuchedd wael,
I lynnoedd aur angylion Duw.

* Rhinwedd.

4 Ac wrth dy enw, Iesu cu,
Addolwn, plygwn bawb y lin:
Bendigaid yw dy fwrdd a'th dŷ;
Dy gnawd sydd fwyd, dy waed sydd win.

5 Holl gnawdol rinwedd bwyd y byd
Yw llonni 'r galon, twymo 'r pen;
Ond bwyd y nef i'r marw mud
Rhydd sythol sywyd uwch y nen.

6 Ac am y manna nefol per
Boed mil o fawl i'n Harglwydd ner:
Dadseinied swn Hosanna 'n Duw
Fry hyd y man mae 'r Iesu 'n byw.

J. J.

HYMN CIV. [M. C.]

Wrth ymadael.

1 YN awr mae 'r amser wedi do'd
I ddarfod, rhaid ymad'el:
Ond amser ddaw, a groesaw 'r dydd,
Na thraid wrth ffydd na ffarwel.

2 Nid yw 'n cymdeithas oreu 'nawr
Ond byr, heb fawr happusrwydd;
A chyn bo hir cawn yn y bedd
Gyd-orwedd mewn distawrwydd.

3 Pan fo'm y naill oddiwrth y llall,
A chyd a'r anghall hefyd,
Y Bugail da, O gwylia di
Ein henaid ni bob ennyd!

4 Pan fyddom bell oddiwrth dy blant,
Rho i ni fwyniant hyfryd
O'th bresennoldeb di, ein Duw,
Trwy 'n hamryw lwybrau embyd.

5 O am gyfarfod oll ar frys
Tu fewn i'r llys trag'wyddol!
Cyd-orphwys pawb o'r seintiau pell
Fry yn y Babell nefol.

DIWEDD.